

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Cymraeg i bawb?

Chwefror 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Llun y clawr gan Aled Llywelyn.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**
X: **@SeneddDiwyllCRh**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cymraeg i bawb?

Chwefror 2026



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



Mick Antoniw AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Gareth Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



Lee Waters AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Julie Morgan AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Argymhellion a chasgliadau	9
1. Cyflwyniad.....	13
Ein dull gweithredu.....	13
2. Cefndir.....	15
Y strategaeth genedlaethol: Cymraeg 2050.....	15
Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.....	15
Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025	16
Y Gymraeg yn ddaearyddol.....	16
3. Taith iaith a chymhelliant personol	19
Pwyntiau mynediad a dwyieithrwydd	20
Ein barn ni	21
4. Gwyliau a digwyddiadau Cymraeg.....	22
Rôl ac effaith gwyliau a digwyddiadau	22
Cynllunio a pharatoi cyn yr ŵyl.....	23
Cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl gwyliau a'r gwaddol.....	24
Cyllid ar gyfer digwyddiadau a gwyliau'r mentrau iaith	26
Mynediad rhad ac am ddim neu gost-isel.....	26
Ein barn ni	28
5. Technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial	31
Polisi ystwyth ac ymatebol	32
Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg.....	32
Apiau Cymraeg a pha mor hawdd yw dod o hyd iddynt.....	34

Darparu apiau a gwasanaethau bancio	35
Y gweithlu: datblygwyr Cymraeg	36
Data agored a thrwyddedau agored	36
Modelau a lefelau cyllido	37
Data ynghylch y defnydd a wneir o dechnoleg Cymraeg	38
Ein barn ni	39
O'r sylfeini i ddefnydd o ddydd i ddydd	39
Ystwythder a safonau	40
Ecosystem agored a rhannu data	40
Cyllido: Amlflwyddyn, hyblyg, ac addas i'r byd digidol	40
Y gweithlu a sgiliau	41
Pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys, a phlwrailiaeth	41
6. Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth	43
Cymraeg yn y gweithle: maes strategol i'w ddatblygu	43
Hamdden a chwaraeon llawr gwlad: dod â'r Gymraeg yn fyw	44
Ein barn ni	46
Pontio rhwng yr ysgol a'r gymuned	46
Defnyddio'r iaith yn y gweithle	46
Chwaraeon fel hwylusydd cymdeithasol	46
Dylunio gweithgareddau perthnasol a hwyliog	47
7. Ymchwil a strategaethau wedi'u targedu	49
Ymchwil a data	49
Ymchwil: Ymestyn 'Prosiect BRO' a mesur effaith	50
Ymchwil gymharol a chydweithio rhyngwladol	51
Strategaethau wedi'u targedu	52
Rôl y Cymry ar wasgar	53

Ein barn ni	53
Ymchwil	53
Denu'r Cymry ar wasgar drwy dechnoleg	55
Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.....	56
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	59
Gwybodaeth ychwanegol.....	60

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Gymraeg yn iaith sy'n perthyn i bawb yng Nghymru, p'un a ydynt yn gallu ei siarad ai peidio. Fel pwyllgor, roeddem yn awyddus i ddarganfod y cyfleoedd a'r heriau yn yr ardaloedd hynny lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir: o fylchau mewn hyder i ddosbarthiadau, ac o wyliau i gyllid, rydym wedi treulio amser yn ymchwilio i'r hyn y mae angen iddo newid er mwyn grymuso pobl i ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Os yw targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 am gael ei wireddu, rhaid inni edrych y tu hwnt i addysgu'r iaith yn ein hysgolion. Mae deall y rhwystrau penodol sy'n atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg, a deall sut y gellir meithrin hyder fel bod yr iaith yn dod yn ddewis naturiol yn ein bywyd-bob-dydd, yn hollbwysig i sicrhau hyfywedd hirdymor yr iaith ym mhob cymuned.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer cefnogi'r Gymraeg a'i hyrwyddo. Roedd cyhoeddi'r strategaeth *Cymraeg 2050* yn newid pwysig sydd i'w groesawu o ran meddylfryd a chynllunio ieithyddol, ac mae gan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 y potensial i drawsnewid sut y caiff yr iaith ei dysgu.

Mae Cymru hefyd wedi bod yn arloesol wrth baratoi ar gyfer datblygiadau mewn technoleg ac wrth sicrhau bod gan y Gymraeg le ystyrllon a pharhaol yn y datblygiadau hyn. Fodd bynnag, rhaid i'r cam nesaf ymateb i'r byd sy'n prysur newid - byd lle mae creadigrwydd, diddordebau ac ymdeimlad o hunaniaeth pobl ifanc yn datblygu fwyfwy o fewn mannau digidol. Felly, rhaid i strategaethau'r dyfodol ganolbwyntio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac ar ddiddordebau a phrofiad go iawn ein pobl ifanc, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith y gorffennol, ond fel iaith fyw sydd i'w defnyddio bob dydd ym mhle bynnag y maent yn gweithio, yn byw ac yn dychmygu eu dyfodol.

Ar yr un pryd, rhaid inni fod yn ofalus. Ni allwn gymryd yn ganiataol bod deallusrwydd artiffisial yn ddatrysiad syml i bob problem ar gyfer yr heriau sy'n wynebu'r iaith. Er y gallai manteision clir ddeillio o ddefnyddio technoleg yn briodol, rhaid inni gydnabod y gallai'r defnydd eang o Saesneg, sy'n rhan gynhenid o ddeallusrwydd artiffisial, fod yn fygythiad i'r Gymraeg os nad eir i'r afael â hyn.

Dangosodd ein hymchwiliad hefyd nad yw newid hyder pobl i ddefnyddio'r iaith a'u hymddygiad o ran defnyddio'r iaith yn digwydd ar hap. Mae'n gofyn am

gynllunio bwriadol a pholisïau blaengar sy'n ystyrlon o anghenion y gymuned. Mae hefyd yn gofyn am fuddsoddiad yn y mannau ffisegol, cymdeithasol, diwylliannol a digidol lle gall y Gymraeg ddod yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai camau ymarferol penodol i helpu i wireddu'r weledigaeth honno, gan sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei byw yn ogystal â'i dysgu.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bob unigolyn, sefydliad a chymuned a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn. Mae eu mewnwleidiadau, eu straeon a'u profiadau wedi helpu i lunio ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, a'r hyn sydd angen newid, os yw'r Gymraeg am ffynnu. Mae lleisiau'r unigolion hynny yn ein hatgoffa nad yw polisi iaith byth yn rhywbeth haniaethol; mae'n ymwneud â phobl, hunaniaeth, cysylltiad a pherthyn. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r realiti hwnnw, ac yn galw am weithredu sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw a ffyniannus am genedlaethau i ddod.



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Argymhellion a chasgliadau

Argymhelliad 1. Datblygu fframwaith gwaddol strategol a chyllid gwaddol pwrpasol: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu fframwaith clir i roi arweiniad o ran cynllunio gwaddol ar ôl gwyliau. Byddai hyn yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan wyliau Cymraeg cenedlaethol a rhanbarthol allweddol yn trosi'n weithgarwch cynaliadwy yn y blynyddoedd dilynol.Tudalen 29

Argymhelliad 2. Sefydlu cronfa bwrpasol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwaddol: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa fach, bwrpasol i gefnogi'r mentrau iaith a phartneriaid allweddol gyda gweithgareddau a mentrau i sicrhau gwaddol ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld ag ardal. Dylai'r gronfa ganolbwyntio ar ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, neu ardaloedd ble mae angen ymyriadau dwys. Byddai hyn yn galluogi'r mentrau iaith a chyrff partner i gael mynediad at gyllid penodol wedi'i dargedu er mwyn adeiladu ar lwyddiant gwyliau mawr.Tudalen 30

Argymhelliad 3. Sicrhau mynediad rhad ac am ddim neu gost-isel: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n barhaus ddigonolrwydd y cyllid a ddarperir i'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i alluogi mynediad am ddim neu gost-isel i aelwydydd incwm isel i'r prif wyliau cenedlaethol Cymraeg.Tudalen 30

Argymhelliad 4. Monitro a gwerthuso effaith: Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth partneriaid, gomisiynu ymchwil a gwerthusiad o'r effaith a gaiff gwyliau a digwyddiadau Cymraeg lleol a chenedlaethol o ran defnydd a hyder pobl i ddefnyddio'r iaith yn ein cymunedau a'n hysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Dylai'r canfyddiadau lywio penderfyniadau polisi a buddsoddi yn y dyfodol.Tudalen 30

Argymhelliad 5. Cryfhau mentrau data agored a chael gwared ar rwystrau i rannu data: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cryfhau mentrau data agored y sector cyhoeddus, a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â GDPR i rannu data yn gyfrifol er mwyn cefnogi datblygiad technoleg Cymraeg.Tudalen 42

Argymhelliad 6. Cyflwyno modelau cyllido amlflwyddyn a chynyddu buddsoddiad craidd: Dylai Llywodraeth Cymru symud o gylchoedd cyllido blynyddol i fodelau amlflwyddyn i gynorthwyo gyda datblygu technoleg Cymraeg. Byddai modelau cyllido tymor hwy yn cefnogi sefydliadau allweddol fel Canolfan

Bedwyr i gynllunio prosiectau sy'n rhychwantu sawl blwyddyn ariannol.

..... Tudalen 42

Argymhelliaid 7. Cefnogi mentrau cymunedol: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu, yn debyg i'w chynllun Perthyn, i alluogi sefydliadau cymunedol a chlybiau llawr gwlad i ddatblygu ffyrdd arloesol o gyflwyno cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai prif ffocws unrhyw gyllid o'r fath fod ar gefnogi clybiau llawr gwlad mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg.

..... Tudalen 48

Casgliad 1. Er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen dull cyfannol sy'n cyfuno ymyriadau diwylliannol, cymdeithasol a pholisi. Er bod cymhelliant unigolion i ddysgu a defnyddio'r iaith yn rhywbeth personol, mae tystiolaeth yn dangos y gall creu cyfleoedd hygyrch a chynhwysol, drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau lleol, ddylanwadu'n sylweddol ar ymddygiad a hyder pobl wrth ddefnyddio'r iaith. Mae digwyddiadau a gwyliau diwylliannol lle mae pobl yn cael eu trochi yn yr iaith yn hollbwysig, ond mae hefyd angen creu mwy o ofodau dwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg. Bydd cefnogi trefnwyr digwyddiadau a gwyliau i fabwysiadu ethos dwyieithog yn helpu i normaleiddio'r iaith, ac yn sicrhau y caiff ei chlywed a'i gweld lle bynnag y boch yng Nghymru. Tudalen 21

Casgliad 2. Mae gwyliau a digwyddiadau Cymraeg yn ffyrdd hollbwysig o hyrwyddo a normaleiddio'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Maent yn creu profiadau pwerus a chadarnhaol sy'n codi hyder, gwelededd a pharodrwydd i ddefnyddio'r iaith. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, fodd bynnag, rhaid i'r digwyddiadau hyn gael eu hymgorffori mewn fframwaith strategol ehangach, rhaid darparu adnoddau priodol ar eu cyfer a rhaid iddynt ymgysylltu â'r gymuned gyfan, nid dim ond yr ychydig sy'n cymryd rhan. Tudalen 29

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith partneriaeth cryfach rhwng cyrff cenedlaethol (gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Chyngor Celfyddydau Cymru), awdurdodau lleol, y mentrau iaith, sefydliadau cymunedol, a sefydliadau angor fel cyrff chwaraeon, gael ei ategu gan gyllid pwrpasol i sicrhau gwaddol, ac y dylid sicrhau bod rolau wedi'u diffinio'n glir. Bydd y dull hwn yn osgoi rhoi straen ar adnoddau ar lefel leol, yn golygu y gellir ehangu digwyddiadau llwyddiannus, ac yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan wyliau yn arwain at gynnydd hirhoedlog wrth i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n hysgolion. Tudalen 29

Casgliad 4. Mae'r gwaith cynnar a wnaed i baratoi'r sylfeini ar gyfer technoleg Cymraeg yn golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y gorau o'r cyfleoedd mewn datblygiadau technolegol, yn enwedig deallusrwydd artiffisial. Mae'n allweddol ein bod yn trosi'r sefyllfa strategol hon i gynyddu'r defnydd o dechnoleg Cymraeg o ddydd i ddydd. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu:

- fframwaith polisi ystwyth ac ymatebol;
- safonau'r Gymraeg wedi'u mireinio i'w gosod ar gyrff cyhoeddus i adlewyrchu'r cyd-destun technolegol newydd (lle bo angen, drwy ddeddfwriaeth);
- model cyllido amlflwyddyn sy'n cyd-fynd â rhaglenni cyflawni digidol;⁴¹
- llwybrau data agored cryfach;
- buddsoddiad yn y gweithlu datblygwyr Cymraeg;
- ymchwil estynedig a mesur y defnydd a wneir o dechnoleg Cymraeg; a
- camau gweithredu wedi'u targedu i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymraeg, a phlwriliaeth cynnwys Cymraeg. Tudalen 41

Casgliad 5. Mae apiau a chynnwys Cymraeg yn cael anhawster yn sgil algorithmau sy'n rhoi amlygrwydd i'r apiau mwyaf poblogaidd, sydd bob amser yn Saesneg. Mae chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo apiau a chynnwys Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig i bobl ifanc, yn hanfodol. Er y gallai llawer o hyn fod y tu hwnt i gwmpas yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, gall gefnogi sefydliadau partner i weithio gyda datblygwyr a chrewyr cynnwys i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymraeg, a phlwriliaeth cynnwys Cymraeg. Tudalen 42

Casgliad 6. Mae angen i bolisi cyhoeddus ganolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gefnogi cyrff y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Mae Deddf 2025 yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n gadarnhaol â sefydliadau a busnesau wrth i'r CEFR gael ei gyflwyno. Dylid creu pecyn cymorth, sy'n cynnwys rhoi mynediad i fusnesau a gweithwyr at adnoddau a hyfforddiant drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ynghyd â chyfleoedd i rannu arferion da. Tudalen 47

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno gweld llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gefnogi clybiau llawr gwlad i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg a chreu ethos Gymraeg gryfach. Gan weithio gyda chyrff rheoli, dylai Llywodraeth Cymru

ddarparu cymorth lle bo angen i rannu arferion da. Dylai'r cyrff rheoli hefyd ganolbwyntio ar:

- Recriwtio a hyfforddi mwy o hyfforddwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu cymorth i hyfforddwyr sydd â diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg.
- Ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau clybiau a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Tudalen 48

Casgliad 8. Mae'n amlwg bod bwriad da i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru, drwy Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso Cymraeg 2050, wedi ceisio darparu rhywfaint o arweiniad yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae angen dull llawer mwy systematig a chydlynol o ymdrin ag anghenion ymchwil i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflawni polisiau yng nghyd-destun y Gymraeg. Dylai'r arweinyddiaeth honno ddod gan Lywodraeth Cymru.....Tudalen 55

Casgliad 9. Mae angen penodol i fesur effeithiolrwydd ymyriadau yn y gweithle ac mewn chwaraeon o ran y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys astudiaethau hydredol i olrhain newid ymddygiad dros amser. Dylai hyn gyd-fynd â chyflwyno'r CEFR a newidiadau ehangach a ddaw yn sgil y Ddeddf.....Tudalen 55

Casgliad 10. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl y Cymry ar wasgar yn ei strategaeth iaith yn rheolaidd a sicrhau bod polisiau'n adlewyrchu'r realiti bod ein cymuned ieithyddol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Dylai'r gwaith ymgysylltu fod yn gymesur a dylid canolbwyntio ar gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg.....Tudalen 55

1. Cyflwyniad

1. Yn dilyn cam cyntaf y gwaith a wnaed gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ("y Comisiwn"),¹ penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r heriau a'r cyfleoedd o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru. Rhoddwyd sylw penodol i'r ardaloedd hynny lle mae dwysedd is o siaradwyr Cymraeg a llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, er mwyn deall beth yw'r rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg a nodi pa fesurau ymarferol y gellir eu cymryd i gefnogi ei thwf.

Ein dull gweithredu

2. Ar 7 Awst 2024, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn galw heibio ym Mhabell y Cymdeithasau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Fe wnaeth yr aelodau hefyd ymgysylltu ag ymwelwyr â'r ŵyl ar hyd a lled y maes i gasglu barn ar eu defnydd-bob-dydd o'r Gymraeg.²

3. Ar 18 Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad. Y nod oedd:

- Archwilio'r rhwystrau a'r cyfleoedd allweddol i ddefnyddio'r Gymraeg ledled Cymru, ond gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg;
- Archwilio dulliau, technegau ac ymyriadau, gan gynnwys technoleg, a all annog newid ymddygiad a datblygu hyder fel bod mwy o bobl yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg bob dydd;
- Ystyried effeithiolrwydd mentrau sy'n anelu at greu'r amodau a'r gofodau i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg;
- Deall i ba raddau y mae digwyddiadau diwylliannol, fel yr Eisteddfodau a gwyliau Cymraeg, yn effeithio ar ddefnydd iaith mewn ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg.

¹ Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Crymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg: Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg - 8 Awst 2024

² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Nodyn Ymgysylltu Eisteddfod Genedlaethol - 7 Awst 2024

- 4.** Ar 24 Ionawr 2025, cyhoeddwyd galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig gyda 27 Ebrill 2025 yn ddyddiad cau. Cafwyd 26 o ymatebion.³
- 5.** Rhwng 5 Mawrth ac 16 Gorffennaf 2025, cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS.⁴ Mae rhestr o'r tystion i'w gweld yn **Atodiad 1**, a rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn **Atodiad 2**.
- 6.** Fe wnaeth Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr Cymraeg ac unigolion â lefelau amrywiol o alluoedd yn yr iaith. Y nod oedd deall pam mae pobl mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg yn dewis dysgu Cymraeg, ac archwilio a yw digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol yn dylanwadu ar eu cymhelliant.⁵
- 7.** Rydym wedi bod yn gohebu ac wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol.⁶
- 8.** Rydym yn awyddus i fynegi ein diolch diffuant i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad drwy sôn am eu profiadau, drwy roi tystiolaeth a thrwy gynnig eu harbenigedd.

³ Mae'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law i'w gweld yn llawn ar [wefan yr ymgynghoriad](#).

⁴ Mae manylion y sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys dolenni i'r trawsgrifiadau a darllediadau ar Senedd.tv, ar gael ar [wefan yr ymchwiliad](#).

⁵ [Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Mehefin 2025](#)

⁶ Mae'r holl ohebiaeth ar gael ar [wefan yr ymchwiliad](#).

2. Cefndir

9. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol, datblygiadau polisi, a materion allweddol sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, adroddiadau blaenorol, a gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i ddarparu'r cyd-destun y cynhaliwyd yr ymchwiliad ynddo.

Y strategaeth genedlaethol: Cymraeg 2050

10. Nod strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru i filiwn, a dyblu'r defnydd dyddiol i 20 y cant erbyn 2050. Mae Cymraeg 2050 yn datgan:

"Yn ogystal â chael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhaid barnu llwyddiant y strategaeth hon yn nhermau lefelau'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r targedau cyffredinol ar gyfer y strategaeth hon fel a ganlyn:

- *Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050*
- *Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050."*⁷

11. Mae Cymraeg 2050 yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Cymru gyfan, gan gydnabod y "potensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg". I wireddu hyn, mae'r strategaeth yn anelu at greu "amodau ffafriol ym mhob rhan o'r wlad sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg"⁸.

Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

12. Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru i wneud "argymhellion polisi gyda'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg". Ar 8 Awst 2024, cyhoeddodd y

⁷ Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr - 10 Gorffennaf 2017, tudalen 11

⁸ Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr - 10 Gorffennaf 2017, tudalen 7

Comisiwn ei adroddiad ar gam cyntaf ei waith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.⁹ Gwnaeth 57 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Er bod y gwaith yn canolbwyntio ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg, roedd sawl argymhelliad a allai hefyd fod yn berthnasol i unrhyw ran o Gymru a chefnogi siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned.

13. Mae'r Comisiwn bellach yn ymgymryd ag ail gam ei waith gan ganolbwyntio ar ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu isel o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac yn ystyried sut y gellid cryfhau'r Gymraeg yn y cymunedau hyn.¹⁰ Mae ymchwiliad y Pwyllgor yn amserol felly, gan roi mewnwelediadau ac argymhellion i Lywodraeth bresennol Cymru a'r Llywodraeth arfaethedig weithredu a chymryd camau penodol.

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

14. Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025¹¹ ("y Ddeddf"), yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy roi mesurau ar waith i sicrhau bod pob disgybl yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt adael addysg orfodol.

15. Mae'r Ddeddf yn pennu tri chategori iaith statudol ar gyfer ysgolion: "Prif iaith – Cymraeg", "Dwy iaith", a "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg." Mae'n pennu'r isafswm addysg Gymraeg sy'n ofynnol ynghyd â nodau dysgu ar gyfer pob categori. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac ysgolion baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg.

16. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg, yn ogystal â dull safonol newydd o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd (CEFR).

Y Gymraeg yn ddaearyddol

17. Mae'n hysbys bod y Gymraeg ar ei chryfaf yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru (gweler **Ffigur 1** isod), er gwaethaf yr heriau y gwyddom amdanynt o ran

⁹ [Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Crymuso cymunedau cryfhau'r Gymraeg - 8 Awst 2024](#)

¹⁰ [Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Cylch gorchwyl - yr ail gam](#)

¹¹ [Senedd Cymru: Deddf y Gymraeg ac Addysg \(Cymru\) 2025](#)

cynnal y Gymraeg fel iaith fyw yn y cymunedau dwysedd uwch hynny sy'n siarad yr iaith.

18. Er bod nifer a dwysedd siaradwyr Cymraeg yn lleihau wrth fynd yn nes at y ffin â Lloegr, mae cymunedau ledled Cymru sydd â niferoedd sylweddol o drigolion sy'n siarad Cymraeg, hyd yn oed lle mae dwysedd cyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn isel. Ni fyddai Caerdydd, er enghraifft, fel arfer yn cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, ond mae ganddi niferoedd mwy o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg nag sydd gan Geredigion neu Ynys Môn. Nododd y Comisiwn saith Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is¹² ("LSOA") yng Nghaerdydd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg dros 25 y cant.


19. Fe wnaeth y Comisiwn ystyried y data sydd ar gael ar lefel gymunedol ar gyfer ardaloedd yr ystyrir bod ganddynt ddwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg: Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, a Sir Gaerfyrddin. Ym mhob un o'r pedair sir, canfuwyd bod gan dros hanner yr LSOAs 40 y cant neu fwy o drigolion sy'n siaradwyr Cymraeg:

- Ynys Môn, 34 o blith 41 LSOA
- Gwynedd, 65 o blith 71 LSOA
- Ceredigion, 37 o blith 45 LSOA
- Sir Gaerfyrddin, 58 o blith 111 LSOA

20. Mae yna hefyd LSOAs ble mae dros 40 y cant o drigolion yn gallu siarad Cymraeg yng Nghonwy, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Powys, a Chastell-nedd Port Talbot.

¹² Ardaloedd daearyddol bach sy'n cael eu defnyddio at ddibenion ystadegol yw LSOAs.

Ffigur 1: Canran y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, 2021



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru¹³

¹³ Llywodraeth Cymru: Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).

3. Taith iaith a chymhelliant personol

21. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am natur bersonol iawn taith iaith Gymraeg unigolyn. Disgrifiodd tystion sut y gall trobwyntiau, deffroad a chymhelliant, ddylanwadu ar y cynnydd a wneir ar hyd continwmm ieithyddol.¹⁴ I lawer, mae'r rhesymau dros gychwyn neu ailgychwyn eu taith iaith yn gymhleth, ac yn aml brofiadau emosiynol a phersonol sydd wrth eu gwraidd.¹⁵ Mae rhai unigolion yn dechrau dysgu Cymraeg er mwyn teimlo'n rhan o grŵp cymdeithasol, rhwydwaith, neu eu cymuned. Gall ymdeimlad cryf o berchnogaeth o'r iaith rymuso pobl, gan gynyddu eu hyder a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd-bob-dydd.

22. Er ei bod bron yn amhosibl adnabod yr union foment pan fydd unigolyn yn penderfynu dechrau'r daith honno, gall llywodraeth (ar lefel genedlaethol ac ar lefel llywodraeth leol), rhwydweithiau a sefydliadau sy'n hybu ac yn cefnogi'r iaith, a chymunedau eu hunain greu pwyntiau mynediad sy'n ei gwneud yn haws i unigolion ymgysylltu â'r iaith. Gall y pwyntiau mynediad hyn roi'r hyder i bobl ddefnyddio pa bynnag allu yn y Gymraeg sydd ganddynt, gan ddechrau'r daith honno tuag at ei wneud mwy o ddefnydd ohoni a'i dysgu ymhellach.

23. Clywodd y Pwyllgor gan arbenigwyr rhyngwladol mewn cynllunio ieithoedd lleiafrifol a ddywedodd bod pobl yn teimlo'n amharod neu'n betrus i ddefnyddio iaith y maent yn ei hystyried yn "iaith wannach" iddynt, un y maent yn ei dysgu neu'n llai cyfforddus yn ei defnyddio, ac mai'r rheswm am hynny oedd bod arnynt "ofn gwneud camgymeriadau" neu gael eu "barnu".¹⁶ Gall cefnogi dysgwyr, siaradwyr newydd neu unigolion sydd â diffyg hyder i gymryd y "risg" honno a defnyddio'r iaith mewn sefyllfa bob-dydd, fel mewn siop neu dafarn leol, gael effeithiau cadarnhaol hirdymor.¹⁷

24. Soniodd y rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws yn aml am y rhwystrau i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.¹⁸ Diffyg hyder oedd yr her fwyaf arwyddocaol, gyda

¹⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 167

¹⁵ Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb? Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Mehefin 2025, paragraff 35

¹⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraffau 297-299

¹⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraffau 297-299

¹⁸ Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb? Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Mehefin 2025, paragraffau 48-54

llawer o ddysgwyr yn poeni am wneud camgymeriadau neu am gael eu barnu gan siaradwyr rhugl.¹⁹ Roedd cyfyngiadau amser a phrinder cyfleoedd i ymarfer yn llesteirio cynnydd ymhellach, yn enwedig i'r rhai mewn cyflogaeth neu sy'n byw mewn ardaloedd â llai o ddigwyddiadau Cymraeg. Roedd agweddau negyddol ymhlith pobl ifanc a'r ffaith nad yw cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol hefyd yn cyfyngu ar y graddau y mae pobl yn ymgysylltu â'r iaith. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i rannu gwybodaeth yn well, gan awgrymu y dylid cael un platfform canolog er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i ddigwyddiadau ac adnoddau Cymraeg.²⁰

25. Mae darparu cyfleoedd sy'n cyd-fynd â chymhellion pobl i ddysgu'r iaith yn y lle cyntaf yn hanfodol yn ôl Dr Ruth Kircher, sy'n nodi nad yw pobl yn dysgu iaith dim ond er mwyn gallu siarad iaith leiafrifol.²¹ Mae gwneud yr iaith yn hwyliog ac yn berthnasol yr un mor bwysig. Fodd bynnag, fel y nododd Dr Robert Talbot, nid yw'n bosibl dyfeisio hwyl, mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ddigymell.²²

26. Mae creu cyfleoedd lle y gellir defnyddio'r iaith mewn lleoliadau anffurfiol yn rhan allweddol o waith y mentrau iaith, Urdd Gobaith Cymru ("yr Urdd") a sefydliadau cenedlaethol eraill, heb anghofio rôl hollbwysig grwpiau cymunedol lleol a digwyddiadau sy'n galluogi pobl i ryngweithio â'r iaith a sicrhau bod mwy o gyfle i wneud hynny.

Pwyntiau mynediad a dwyieithrwydd

27. Un thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth oedd yr angen i symud y tu hwnt i greu gofodau Cymraeg ynysig, fel Parti Ponty neu Tafwyl, tra bod llawer o ddigwyddiadau lleol yn parhau i fod yn Saesneg yn bennaf.²³ Awgrymodd tystion y gallai mabwysiadu ethos mwy dwyieithog ar draws ystod ehangach o ddigwyddiadau normaleiddio'r Gymraeg ymhellach, a chreu pwyntiau mynediad ychwanegol i bobl ymgysylltu â'r iaith.²⁴ Gellid blaenoriaethu'r dull hwn o fewn

¹⁹ *Tim Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Mehefin 2025*, paragraff 49

²⁰ *Tim Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Mehefin 2025*, paragraffau 48-70

²¹ *Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Gorffennaf 2025*, paragraff 303

²² *Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Gorffennaf 2025*, paragraff 315

²³ *Tim Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Mehefin 2025*, paragraff 97

²⁴ Er enghraifft, *Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 12 Mehefin 2025*, paragraff 182

Strategaethau Cymraeg pum mlynedd awdurdodau lleol, a chyflawni hyn mewn partneriaeth â mentrau iaith a sefydliadau eraill.²⁵

Ein barn ni

28. Cawsom dystiolaeth a oedd yn dweud nad mater o bolisi neu ddarpariaeth yn unig yw'r broses o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Yn hytrach, mae'n broses gymdeithasol a diwylliannol sy'n dibynnu ar greu cyfleoedd ystyrlon i ymgysylltu â'r iaith. Mae teithiau unigol yn cael eu dylanwadu gan ffactorau emosiynol a chymunedol, ac er na ellir creu'r rhain, gellir cefnogi'r teithiau iaith hyn drwy ddigwyddiadau, rhwydweithiau ac ymyriadau hygyrch. Mae gwyliau diwylliannol a mannau dwyieithog yn chwarae rhan allweddol wrth normaleiddio'r Gymraeg a darparu pwyntiau mynediad i siaradwyr newydd. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod angen gwneud mwy i ymgorffori dwyieithrwydd ar draws digwyddiadau prif ffrwd a sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg.

Casgliad 1. Er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen dull cyfannol sy'n cyfuno ymyriadau diwylliannol, cymdeithasol a pholisi. Er bod cymhelliant unigolion i ddysgu a defnyddio'r iaith yn rhywbeth personol, mae dystiolaeth yn dangos y gall creu cyfleoedd hygyrch a chynhwysol, drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau lleol, ddylanwadu'n sylweddol ar ymddygiad a hyder pobl wrth ddefnyddio'r iaith. Mae digwyddiadau a gwyliau diwylliannol lle mae pobl yn cael eu trochi yn yr iaith yn hollbwysig, ond mae hefyd angen creu mwy o ofodau dwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg. Bydd cefnogi trefnwyr digwyddiadau a gwyliau i fabwysiadu ethos dwyieithog yn helpu i normaleiddio'r iaith, ac yn sicrhau y caiff ei chlywed a'i gweld lle bynnag y boch yng Nghymru.

²⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 463

4. Gwyliau a digwyddiadau Cymraeg

29. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth helaeth bod gwyliau a digwyddiadau Cymraeg, boed yn ddigwyddiadau mawr ar lefel genedlaethol neu'n ddigwyddiadau llai, cymunedol, yn chwarae rhan sylweddol wrth hyrwyddo a normaleiddio'r Gymraeg. Dywedodd dystion fod y digwyddiadau hyn yn cynnig llwyfan gweladwy i'r iaith, gan gynyddu "dwysedd iaith" dros dro mewn ardal, a chynnig profiadau pwerus a all newid canfyddiadau pobl, meithrin eu hyder, ac ysgogi newid ymddygiad.²⁶

Rôl ac effaith gwyliau a digwyddiadau

30. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch rôl allweddol digwyddiadau diwylliannol wrth gefnogi defnydd o'r Gymraeg. Rhannodd yr Urdd ddata a gafwyd gan ymwelwyr ag Eisteddfod yr Urdd, a oedd yn dangos bod 90 y cant o'r cyfranogwyr yn teimlo bod eu cyfranogiad wedi eu gwneud yn "fwy hyderus" i ddefnyddio eu Cymraeg. Dywedodd dros 80 y cant o ddysgwyr a siaradwyr newydd ei fod wedi eu hannog i barhau i ddysgu.²⁷

31. Roedd dystiolaeth gan Amgueddfa Cymru yn pwysleisio bod gwyliau yn cynnig profiadau o'r Gymraeg "y tu hwnt i'r profiad arferol o ddydd i ddydd mewn ardaloedd dwysedd isel," ac yn bwysig o ran "cynyddu lefel hyder, defnydd, ac ysbrydoli pobl o ran beth yw posibilïadau'r Gymraeg yn eu hardal nhw"²⁸. Soniodd dystion am y potensial i wyliau gael effaith hirdymor, gan gynnwys annog unigolion i ddechrau neu ailgychwyn eu taith iaith neu roi'r anogaeth sydd ei hangen ar rieni newydd i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.²⁹ Fe wnaeth y mentrau iaith hefyd bwysleisio effaith y digwyddiadau hyn o ran grymuso cymunedau, gan eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb a theimlo perchnogaeth o'r iaith, gan ddod yn bartneriaid allweddol wrth drefnu gweithgareddau.³⁰

32. Soniodd Menter Iaith Merthyr Tudful am y ffaith bod digwyddiadau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, yn aml yn

²⁶ Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 12 Mehefin 2025, paragraff 15

²⁷ CFA 26 - Urdd Gobaith Cymru, tudalen 6

²⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 12 Mehefin 2025, paragraff 11

²⁹ Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 12 Mehefin 2025, paragraff 461

³⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 12 Mehefin 2025, paragraff 252

cynnig y cyfle cyntaf i unigolion newid eu hymddygiad o ran defnyddio'r iaith. Soniwyd mai un o'r ffactorau allweddol wrth alluogi pobl i brofi'r iaith yw sicrhau mynediad am ddim neu fynediad rhad i wyliau a digwyddiadau Cymraeg.³¹

33. Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymraeg, gan gynnwys yr eisteddfodau a gwyliau lleol fel Tafwyl a Ffiliffest, eu cydnabod gan lawer o gyfranogwyr y grŵp ffocws fel cyfleoedd gwerthfawr i ymdrochi yn yr iaith a'r diwylliant. Disgrifiodd y cyfranogwyr y digwyddiadau hyn fel rhai croesawgar eu natur sy'n meithrin hyder pobl i ddefnyddio'r iaith, a nodwyd yn aml bod staff a mynychwyr y digwyddiadau hyn yn addasu'r ffordd y maent yn defnyddio'r iaith er mwyn helpu dysgwyr. Cafodd gwyliau eu canmol am feithrin ymdeimlad o berthyn a balchder, gan ysbrydoli rhai unigolion i barhau â'u taith iaith neu hyd yn oed ddechrau dysgu Cymraeg o'r newydd. Gwelwyd bod digwyddiadau a gynhaliwyd mewn cymunedau lleol, fel yr eisteddfod ym Mhontypridd, yn cael effaith hirhoedlog, gan gynyddu gwelededd y Gymraeg ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg lleol. Gwerthfawrogwyd yn arbennig ddigwyddiadau rhad ac am ddim neu ddigwyddiadau hygyrch gan eu bod yn gynhwysol ac yn gallu denu cynulleidfaoedd amrywiol.³²

34. Er y manteision hyn, amlygwyd sawl her hefyd. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n ofnus neu mewn digwyddiadau mwy neu'n teimlo nad oeddent yn rhan ohonynt, yn enwedig pan oeddent ymysg siaradwyr rhugl, a bod hyn yn eu hatal rhag mynychu. Roedd ambell ddysgwr wedi teimlo bod eraill yn ddiamynedd â nhw neu'n anghefnogol, gan danseilio eu hyder. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y ffaith bod mannau i ddysgwyr mewn gwyliau mawr yn teimlo fel pe baent ar wahân, gan greu ymdeimlad o ynysu yn hytrach nag integreiddio. Roedd rhwystrau ymarferol fel cost, pellter teithio, a diffyg hyrwyddo i gymunedau di-Gymraeg yn cyfyngu ymhellach ar lefelau cyfranogiad.³³

Cynllunio a pharatoi cyn yr ŵyl

35. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch gwaith sylweddol a wnaed yn y cyfnod yn arwain at wyliau a digwyddiadau Cymraeg mawr. Mae'r gwaith cynllunio fel arfer yn cynnwys grwpiau cymunedol, busnesau lleol, awdurdodau lleol, ac amrywiaeth o bartneriaid. Pwysleisiodd Comisiynydd y Gymraeg fod

³¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 484

³² Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Mehefin 2025, paragraffau 71-91

³³ Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion: Cymraeg i bawb?: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu – Mehefin 2025, paragraffau 23-27

gwaith trefnu, digwyddiadau codi arian, a gwaith paratoi yn helpu i greu ymdeimlad o gymuned ac yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.³⁴ Roedd Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn ategu pwysigrwydd cynllunio gweithgareddau, gan ddweud y gall paratoadau a gwaith ymgysylltu ar draws ysgolion, busnesau a'r gymuned ehangach greu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg gan ymestyn ymhell y tu hwnt i un diwrnod mewn gŵyl, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg.³⁵

36. Clywodd y Pwyllgor hefyd am y manteision a'r heriau yn sgil gweithio mewn partneriaeth. Soniodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf am ei "phrofiad cadarnhaol iawn o gydweithio" â'r Eisteddfod wrth gynllunio ar gyfer yr ŵyl ym Mhontypridd. Esboniodd sut y gwnaeth gefnogi'r Eisteddfod drwy ymgysylltu â'r gymuned leol a sut y gallai presenoldeb yr Eisteddfod "agor drysau a bwrw gwelydd lawr" nad oedden nhw'n gallu ei wneud fel sefydliad llai. Fodd bynnag, ar ôl i'r Eisteddfod ddod i ben a symud ymlaen i'r ardal nesaf, y disgwyliad oedd y byddai unrhyw waith o ran gwaddol yn disgyn ar ysgwyddau Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.³⁶

Cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl gwyliau a'r gwaddol

37. Er bod cynllunio cyn gwyliau yn flaenoriaeth glir i'r rhai sy'n rhan o'r gwaith hwnnw, roedd tystiolaeth yn awgrymu na roddir yr un ffocws ar gynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl gwyliau. Dywedodd yr Eisteddfod Genedlaethol wrth y Pwyllgor nad oes ganddi'r capasiti i barhau â phresenoldeb ar lawr gwlad ar ôl y digwyddiad, a chydabu fod hyn yn rhoi pwysau ar sefydliadau lleol.³⁷ Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno nad oes digon o gynllunio bwriadol ar gyfer yr hyn sy'n digwydd o gwmpas gwyliau ac ar eu hôl.³⁸

38. Er gwaethaf adnoddau cyfyngedig, dywedodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ei bod, wrth weithio mewn partneriaeth, wedi cynnal digwyddiadau llwyddiannus ar ôl yr Eisteddfod, gan gynnwys gwobrau busnes a ffair Gymraeg. Fodd bynnag, nododd fod y gwaith hwn i sicrhau gwaddol wedi'i wneud o fewn

³⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 23

³⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 268

³⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraffau 289-290

³⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 413

³⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 22

cyllidebau presennol, heb adnoddau ychwanegol cyn nac ar ôl yr Eisteddfod, gan roi cryn straen ar gapasiti lleol ac adnoddau.³⁹ Aeth Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ymlaen i ddweud bod cyfyngiadau ariannol wedi arwain at leihau maint ei digwyddiad Parti Ponty blynyddol gan gynnal Parti Bach Ponty llai, ar yr union adeg pan oedd y momentwm yn awgrymu y byddai'n briodol ehangu maint yr ŵyl.⁴⁰

39. Soniodd y tystion am ffyrdd newydd o weithio sy'n dod yn fwy amlwg gyda'r nod o sicrhau hirhoedledd yr effaith a gaiff gwyliau mawr a chryfhau eu gwaddol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried ariannu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl gwyliau mawr er mwyn cyfrannu at y gwaith o sicrhau gwaddol. Roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cydnabod bod angen iddi feddwl yn fwy rhagweithiol am weithgareddau ar ôl yr ŵyl, ac awgrymodd y dylai fod yn rhan o bwyllgor gwaddol.⁴¹ Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi sefydlu cynllun gwaddol yr Eisteddfod, wedi'i ysgogi gan ymweliad yr ŵyl â Phontypridd, i groesawu a chefnogi siaradwyr newydd yn yr ardaloedd lle y cynhelir yr ŵyl, gyda darpariaeth ar gael cyn ac ar ôl Eisteddfodau yn y dyfodol.⁴²

40. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod pa mor bwysig yw adeiladu ar waddol gwyliau mawr, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r eisteddfod "wneud mwy i feddwl am y legasi a beth gallan nhw ei wneud i'n helpu ni adeiladu ar hwnna."⁴³ Er nad oes disgwyl i'r Eisteddfod Genedlaethol barhau i ddarparu gweithgareddau lleol ar ôl iddi symud i'w lleoliad nesaf, disgwylir iddi gefnogi cymunedau a phartneriaid lleol, fel y mentrau iaith, gyda thystiolaeth a gesglir cyn ac yn ystod yr ŵyl.⁴⁴

41. Yn y pen draw, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir bod rhaid cyflawni unrhyw waith a wneir gan fenter iaith o ran sicrhau gwaddol o fewn yr adnoddau presennol. Cyfeiriodd at gynnydd diweddar yn y dyraniadau grant craidd, a

³⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 290

⁴⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 340

⁴¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 215

⁴² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 301

⁴³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 28

⁴⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 31

dywedodd y bydd yn rhaid i fentrau iaith “wneud beth mae pob asiantaeth yn ei wneud: blaenoriaethu y pethau maen nhw eisiau ei wneud.”⁴⁵

42. Serch hynny, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod, mewn ardaloedd lle cynhaliwyd Eisteddfod, fod “mwy o waith i’w wneud i adeiladu ar bethau positif sy’n dod mas o’r profiad yna”⁴⁶. Cadarnhaodd fod cynlluniau i gyfarfod â Mentrau Iaith Cymru i drafod pa gymorth ychwanegol y gellid ei darparu yn y “flwyddyn neu ddwy ar ôl i’r Eisteddfod fod yna”⁴⁷.

Cyllid ar gyfer digwyddiadau a gwyliau’r mentrau iaith

43. Galwyd am adnoddau pwrpasol i’r mentrau iaith ddatblygu a chynnal eu digwyddiadau eu hunain. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cydlynu trefniadau i gyd-brynu seilwaith, rhannu adnoddau marchnata, cefnogaeth ar gyfer nawdd, a gweithgareddau hyrwyddo ar hyd a lled y rhanbarthau.⁴⁸ Cynigiodd y tystion y dylai Mentrau Iaith Cymru weinyddu cyllideb grant, o bosibl drwy raglen dreigl, i helpu i sefydlu gwyliau newydd ac i adeiladu rhwydwaith o ddigwyddiadau yn rhanbarthol.⁴⁹ Clywodd y Pwyllgor hefyd fod cost cynnal gwyliau wedi codi’n sylweddol, yn enwedig ar gyfer y seilwaith sydd ei angen i gynnal digwyddiadau’n ddiogel, ond nad yw cyllid craidd ar gyfer y mentrau iaith wedi cynyddu i’r un graddau.⁵⁰ Mae hyn yn cyfyngu ar allu sefydliadau lleol i fanteisio ar y momentwm a gynhyrchir gan wyliau mawr, ac yn cyfyngu ar raddfa a chynaliadwyedd gweithgareddau i sicrhau gwaddol.

Mynediad rhad ac am ddim neu gost-isel

44. Roedd cytundeb cyffredinol bod mynediad am ddim neu gost-isel i gartrefi incwm isel yn hollbwysig i hyrwyddo a chynnal y defnydd o’r Gymraeg. Dywedodd Amgueddfa Cymru:

⁴⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 31

⁴⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 32

⁴⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 32

⁴⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 257

⁴⁹ Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 257

⁵⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 351

“Os rŷn ni’n dweud bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, yna mae hwn yn gam pwysig i ni ei gadw.”⁵¹

45. Roedd Menter Iaith Caerffili yn cytuno:

“[Mae] angen i ni ganfod ffordd i barhau i gyllido’r gwyliau yma yn effeithiol... [mae] angen cadw’r digwyddiadau yma i fod yn rhad ac am ddim, fel eu bod nhw’n hygyrch ac yn gynhwysol.”⁵²

46. Pwysleisiodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf mai nod y mentrau iaith yw bod yn “hygyrch” a “rhoi cyfle i bobl ymgysylltu gyda’r iaith am ddim yn eu hardaloedd,” yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Rhybuddiodd y byddai codi tâl mynediad ar bobl yn “rhwystr” i gyfranogiad.⁵³

47. Mae ffigurau o ran faint o bobl sy’n mynychu yn cefnogi’r farn hon: mae gwyliau sy’n cynnig mynediad am ddim wedi denu niferoedd sylweddol uwch, fel y dangoswyd gan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2018, a ddenodd dros hanner miliwn o ymwelwyr. Dywedodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:

“[Mae] yna dystiolaeth fod yr eisteddfodau yna lle mae mynediad wedi bod am ddim... wedi denu mwy o bobl ac yn debygol o fod wedi denu cynulleidfaoedd ehangach.”⁵⁴

48. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyllid ychwanegol wedi’i ddarparu i’r Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol i alluogi teuluoedd incwm isel i fynychu’r eisteddfodau cenedlaethol. Nododd fod y cyllid hwn wedi’i gynnwys yn y grant craidd a fydd “yna nawr, ac am y dyfodol.”⁵⁵

⁵¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 129

⁵² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 256

⁵³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraffau 372-373

⁵⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 121

⁵⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 52

Ein barn ni

49. Mae gwyliau a digwyddiadau Cymraeg yn cael effaith nodedig fel catalydd: maent yn cynyddu gwelededd yr iaith, yn creu cyfleoedd dwys i ddefnyddio'r iaith, ac yn meithrin hyder a balchder. Gallent hefyd ysgogi buddsoddiad newydd neu ychwanegol mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardal lle mae'r ddarpariaeth wedi bod yn gyfyngedig neu'n absennol yn draddodiadol. Yn arbennig o ran ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, mae'n bosibl mai'r digwyddiadau hyn fydd y pwynt cyswllt cyntaf i lawer â'r iaith y tu allan i addysg ffurfiol, gan gynnig llwybr ymarferol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd a chreu teimlad pendant o berthyn.

50. Rydym yn cymeradwyo ac yn cydnabod pawb sy'n trefnu ac yn cynnal digwyddiadau a gwyliau Cymraeg, boed ar raddfa fawr neu fach, am eu gwaith gwerthfawr yn cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni all gŵyl neu ddigwyddiad ar ei ben ei hun gyflawni newid cynaliadwy heb strategaethau cynllunio bwriadol cyn ac ar ôl digwyddiad. Mae'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan y dystiolaeth bod trefniadau paratoi cryf yn esgor ar gapasiti lleol, yn meithrin partneriaethau, ac yn agor drysau na all sefydliadau llai eu cynnig bob amser. Yr un mor bwysig, mae'r cyfnod ar ôl gŵyl neu ddigwyddiad yn hanfodol i droi'r momentwm tymor byr yn gyfleoedd cynaliadwy i ddysgu a defnyddio iaith. Mae prinder cynllunio pwrpasol i sicrhau gwaddol a phrinder adnoddau ychwanegol yn esgor ar risg y bydd cyfleoedd yn cael eu colli, ac yn rhoi straen anghynaliadwy ar y mentrau iaith a phartneriaid cymunedol.

51. Mae cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl gwyliau yn ymddangos yn *ad-hoc*, heb fawr ddim cynllunio bwriadol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ymddengys hefyd fod disgwyliad y bydd y mentrau iaith yn parhau â'r gwaith wedi i eraill symud ymlaen, ond heb fawr ddim adnoddau ychwanegol i gynllunio'r gwaith hwnnw. Mae'r diffyg cynllun strategol o ran y gwaith i sicrhau gwaddol yn esgor ar ganlyniadau hefyd. Clywsom fod Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi gorfod lleihau Parti Ponty y flwyddyn ar ôl yr Eisteddfod oherwydd diffyg adnoddau. Mae hyn yn ymddangos yn afresymol ar adeg pan ddylai sefydliadau o'r fath fod yn manteisio ar weithgareddau a'u hehangu yn yr ardal.

52. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod fforddiadwyedd a chynhwysiant yn hollbwysig. Rydym yn cefnogi cadw mynediad am ddim i wyliau Cymraeg lle bynnag y bo modd. Mae dystiolaeth gan Amgueddfa Cymru, y mentrau iaith, a Chomisiynydd y Gymraeg yn amlygu bod mynediad am ddim neu gost-isel yn ehangu lefelau cyfranogiad, yn lliniaru'r rhwystrau economaidd-gymdeithasol, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Mae data o ran niferoedd

mynychwyr eisteddfodau cenedlaethol lle y cynigiwyd mynediad am ddim yn cadarnhau eu bod yn denu cynulleidfaoedd mwy o faint a mwy amrywiol. Ym marn y Pwyllgor, mae sicrhau mynediad am ddim neu gost-isel yn gofyn am fuddsoddiad ac adnoddau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ochr yn ochr â modelau ariannu arloesol i gefnogi'r mentrau iaith a threfnwyr cymunedol.

53. Yn olaf, noda'r Pwyllgor fod costau cynyddol seilwaith digwyddiadau yn cyfyngu ar allu sefydliadau fel y mentrau iaith i gynllunio ar gyfer graddfa, ansawdd a hirhoedledd. Rydym yn cydnabod bod y mentrau iaith wedi derbyn cynnydd yn eu grant craidd blyneddol yn ddiweddar ar ôl degawd heb fuddsoddiad ychwanegol, ond credwn y byddai cronfa hyblyg, wedi'i thargedu, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau gwaddol ar ôl gŵyl fawr, yn helpu i sicrhau nad yw'r enillion yn cael eu colli a bod cymunedau'n gallu adeiladu ar y momentwm i sefydlu gweithgareddau cynaliadwy, wedi eu harwain yn lleol, yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Casgliad 2. Mae gwyliau a digwyddiadau Cymraeg yn ffyrdd hollbwysig o hyrwyddo a normaleiddio'r iaith, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Maent yn creu profiadau pwerus a chadarnhaol sy'n codi hyder, gwelededd a pharodrwydd i ddefnyddio'r iaith. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, fodd bynnag, rhaid i'r digwyddiadau hyn gael eu hymgorffori mewn fframwaith strategol ehangach, rhaid darparu adnoddau priodol ar eu cyfer a rhaid iddynt ymgysylltu â'r gymuned gyfan, nid dim ond yr ychydig sy'n cymryd rhan.

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith partneriaeth cryfach rhwng cyrff cenedlaethol (gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Chyngor Celfyddydau Cymru), awdurdodau lleol, y mentrau iaith, sefydliadau cymunedol, a sefydliadau angor fel cyrff chwaraeon, gael ei ategu gan gyllid pwrpasol i sicrhau gwaddol, ac y dylid sicrhau bod rolau wedi'u diffinio'n glir. Bydd y dull hwn yn osgoi rhoi straen ar adnoddau ar lefel leol, yn golygu y gellir ehangu digwyddiadau llwyddiannus, ac yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan wyliau yn arwain at gynnydd hirhoedlog wrth i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n hysgolion.

Argymhelliad 1. Datblygu fframwaith gwaddol strategol a chyllid gwaddol pwrpasol: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol, ddatblygu fframwaith clir i roi arweiniad o ran cynllunio gwaddol ar ôl gwyliau. Byddai hyn yn sicrhau bod y momentwm a gynhyrchir gan

wyliau Cymraeg cenedlaethol a rhanbarthol allweddol yn trosi'n weithgarwch cynaliadwy yn y blynyddoedd dilynol.

Argymhelliad 2. Sefydlu cronfa bwrpasol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwaddol: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa fach, bwrpasol i gefnogi'r mentrau iaith a phartneriaid allweddol gyda gweithgareddau a mentrau i sicrhau gwaddol ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld ag ardal. Dylai'r gronfa ganolbwyntio ar ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, neu ardaloedd ble mae angen ymyriadau dwys. Byddai hyn yn galluogi'r mentrau iaith a chyrff partner i gael mynediad at gyllid penodol wedi'i dargedu er mwyn adeiladu ar lwyddiant gwyliau mawr.

Argymhelliad 3. Sicrhau mynediad rhad ac am ddim neu gost-isel: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n barhaus ddigonolrwydd y cyllid a ddarperir i'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i alluogi mynediad am ddim neu gost-isel i aelwydydd incwm isel i'r prif wyliau cenedlaethol Cymraeg.

Argymhelliad 4. Monitro a gwerthuso effaith: Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth partneriaid, gomisiynu ymchwil a gwerthusiad o'r effaith a gaiff gwyliau a digwyddiadau Cymraeg lleol a chenedlaethol o ran defnydd a hyder pobl i ddefnyddio'r iaith yn ein cymunedau a'n hysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Dylai'r canfyddiadau lywio penderfyniadau polisi a buddsoddi yn y dyfodol.

5. Technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial

54. Mae Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru, elfen graidd o strategaeth Cymraeg 2050, yn gosod fframwaith ar gyfer defnyddio technoleg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein bywydau beunyddiol.⁵⁶ Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer technoleg Cymraeg: datblygu technoleg fel ffordd o helpu i gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, yn enwedig mewn gweithleoedd; sicrhau bod technoleg Cymraeg yn cyrraedd datblygwyr a defnyddwyr; a gwella deallusrwydd artiffisial Cymraeg.⁵⁷

55. Roedd tystion yn cytuno bod Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu technoleg Cymraeg a deallusrwydd artiffisial, gan berfformio'n well na llawer o ieithoedd lleiafrifol Ewrop. Fe wnaeth Dr Cynog Prys ddisgrifio Cymru fel un sydd "yn yr hanner uchaf os ydyn ni'n cymharu efo ieithoedd eraill," gan nodi bod Cymru ar ei hôl hi o'i chymharu â Chatalaneg (mwy o siaradwyr) a Basgeg (mwy o adnoddau), a phwysleisiodd yr angen i gynnal y "momentwm" yn y maes hwn.⁵⁸

56. Roedd cydnabyddiaeth eang bod Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan, a bod blaenoriaethau newydd, yn enwedig pecynnau data a phecynnau model agored, yn ddefnyddiol wrth alluogi cwmnïau preifat i ddefnyddio data heb unrhyw ofyniad statudol.⁵⁹

57. Teimlai Canolfan Bedwyr hefyd fod Cymru "mewn sefyllfa reit dda o safbwynt maint ein poblogaeth ni, a'r nifer o siaradwyr sydd, a'r ffaith bod y Gymraeg i mewn yn y chwyldro AI yma o'r cychwyn cyntaf"⁶⁰. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yn rhaid i ddatblygiadau roi "pobl yn y canol" a chanolbwyntio ar dechnoleg a fydd yn "[g]alluogi defnydd o'r Gymraeg"⁶¹. Er bod llawer o "flociau adeiladu" yn

⁵⁶ Llywodraeth Cymru: Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg 2018 i 2024 - 23 Ionawr 2018

⁵⁷ Llywodraeth Cymru: Datganiad ysgrifenedig: Technoleg a'r Gymraeg - 7 Ionawr 2025

⁵⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraff 220

⁵⁹ Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraffau 16, 134 a 233

⁶⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraff 10

⁶¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraff 13

bodoli, mae angen mwy o waith i sicrhau eu bod yn effeithio ar brofiad defnyddwyr o ddydd i ddydd wrth ddefnyddio technoleg yn y Gymraeg.⁶²

58. Mae Dr Cynog Prys yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y lleoedd cywir, a bod lobïo cwmnïau fel Microsoft a Google wedi talu ar ei ganfed. Serch hynny, dadleuodd Dr Daniel Cunliffe fod y Llywodraeth wedi tanwerthu'r hyn a gyflawnwyd drwy'r cynllun gweithredu, ac y gellid bod wedi bod yn fwy effeithiol wrth esbonio'r canlyniadau.⁶³

Polisi ystwyth ac ymatebol

59. Clywodd y Pwyllgor fod newid technolegol cyflym yn galw am bolisi y gellir ei addasu. Dywedodd Dr Daniel Cunliffe wrth y Pwyllgor:

*"There has been so much rapid change. I've probably seen more change personally in the last sort of three years than in all the years that came before those three years. And extrapolating forward from that is difficult. So, I think policy needs to be agile and responsive."*⁶⁴

60. Yn gyffredinol, roedd y tystion yn cytuno bod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r meysydd cywir i ddechrau, yn enwedig seilwaith digidol, ond y gallai fod angen i bolisiau a strategaethau yn y dyfodol esblygu a newid yn aml.⁶⁵

Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg

61. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod deallusrwydd artiffisial yma i aros, a'i fod yn plethu i bob agwedd ar fywyd, a darparu cyfleoedd yn ogystal â risgiau. Tynnodd Carl Morris sylw at gyfle allweddol, gan nodi y gall deallusrwydd artiffisial "helpu pobl neu grwpiau, unrhyw endid, sydd eisiau cynhyrchu pethau yn Gymraeg," fel cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.⁶⁶

⁶² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 242

⁶³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 241

⁶⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 259

⁶⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraffau 134-137

⁶⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 153

- 62.** Soniodd Amgueddfa Cymru am beilot yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Genedlaethol Caerllion, gan ddefnyddio ap deallusrwydd artiffisial i deilwra ymweliad unigolyn yn Gymraeg.⁶⁷
- 63.** Dywedodd Canolfan Bedwyr fod llawer o'r seilwaith digidol sylfaenol ar gyfer y Gymraeg yn weithredol cyn y cynnydd diweddar mewn deallusrwydd artiffisial, a bod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru yn gywir i nodi'r angen am ddata a'r blociau adeiladu.
- 64.** Dywedodd Dr Cynog Prys fod "safon rhywbeth fel ChatGPT yn Gymraeg... yn dweud cyfrolau am ba mor llwyddiannus mae'r strategaeth dechnolegol wedi bod,"⁶⁸ a dadleuodd Canolfan Bedwyr fod deallusrwydd artiffisial yn darparu "cyfle i agor y byd Gymraeg allan i bob man," gydag "anffurfioldeb byd ar-lein ac AI" o bosibl yn agor drysau ac yn codi hyder mewn sefyllfaoedd lle bo risg is.⁶⁹
- 65.** Ar yr un pryd, rhybuddiodd llawer o dystion rhag gorffwys ar ein rhwyfau. Er bod manteision amlwg a sylweddol i dechnolegau iaith synthetig, o ran ehangu mynediad a lleihau costau, rhaid i'r ffordd y cânt eu defnyddio gael ei arwain gan egwyddorion clir er mwyn atal canlyniadau anfwriadol i statws a defnydd bob dydd o'r Gymraeg.
- 66.** Rhybuddiodd Carl Morris fod risg y bydd cynnwys o ansawdd gwael yn cael ei greu yn Gymraeg gan ddarparwyr nad ydynt yn rhannu amcanion Cymru o ran datblygu'r iaith. Disgrifiodd benderfyniad Duolingo i fabwysiadu dull "AI-yn-gyntaf", gan gael gwared ar arbenigwyr iaith a dibynnu'n llwyr ar systemau awtomataidd, fel rhywbeth "twp"⁷⁰. Rhybuddiodd Carl Morris y gallai arferion o'r fath arwain at weld llu o gynnwys Gymraeg o ansawdd isel, wedi'i gynhyrchu gan beiriannau, a allai "[f]oddi'r pethau pwysig rydyn ni eisiau eu cyhoeddi fel pobl Cymru". Dadleuodd fod hyn yn tanlinellu'r angen am safonau a goruchwyliaeth gadarn i sicrhau bod technoleg yn cefnogi, yn hytrach na gwanhau, integriti'r iaith Gymraeg.⁷¹

⁶⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 65

⁶⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 219

⁶⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 53

⁷⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 163

⁷¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 163

67. Amlygodd Canolfan Bedwyr yr angen am gydraddoldeb wrth ddefnyddio deallusrwydd artifffisial, gan bwysleisio na ddylai gwasanaethau Cymraeg ddibynnu ar leisiau artifffisial mewn sefyllfaoedd lle nad yw gwasanaethau Saesneg yn gwneud hynny. Rhybuddiwyd rhag dyfodol lle mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol, gan nodi bod cydraddoldeb yn hanfodol i sicrhau tegwch a hygrededd.⁷²

68. Aeth cynrychiolydd Canolfan Bedwyr ymlaen i ddweud bod gorddibyniaeth ar atebion synthetig yn peri risg wirioneddol na fyddai'n rhaid i sefydliadau ddatblygu gweithluoedd sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Pwysleisiodd y tystion, er y gall technoleg gefnogi mynediad drwy gyfrwng y Gymraeg, na ddylai hynny fod ar draul gwaith bodau dynol na thanseilio ymdrechion i ymgorffori'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol o ddydd i ddydd.⁷³

69. Rhybuddiodd Canolfan Bedwyr:

*"Yn sicr. Mae'n gyffrous, mewn ffordd. Mae o wedi diogelu elfen o'r Gymraeg yn barod—gallwn ni gydnabod hynny—ac mae'n bwysig ein bod ni wedyn yn sicrhau nad ydy'r Gymraeg yn dod yn rhyw fath o eitem arddangos mewn amgueddfa, lle mae gennych chi ryw AI sy'n gallu siarad Cymraeg, a'n bod ni wedi stopio siarad Cymraeg. Mae hynny'n rhywbeth rydym ni angen ei osgoi."*⁷⁴

Apiau Cymraeg a pha mor hawdd yw dod o hyd iddynt

70. Clywodd y Pwyllgor fod y dirwedd apiau yn hynod o orlawn, gyda thua 8.93 miliwn o apiau symudol ledled y byd (3.5 miliwn ar Google Play ac 1.6 miliwn ar Apple App Store) a'i bod yn her sylweddol dod o hyd i'r apiau Cymraeg.⁷⁵

71. Soniodd Dr Daniel Cunliffe am anawsterau o ran sicrhau bod apiau a chynnwys Cymraeg yn weladwy i ddefnyddwyr, a dywedodd hyd yn oed lle mae cynnwys yn bodoli, y gall fod yn anodd iawn dod o hyd iddo ymysg yr holl apiau

⁷² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 68

⁷³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 69

⁷⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 63

⁷⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 330

Saesneg.⁷⁶ Roedd ei waith ymchwil wedi canfod bod pedwar deg tri y cant o apiau Cymraeg ar yr App Store yn rhai i addysgu'r Gymraeg neu'n addysgu rhywbeth drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd 10 y cant yn ymwneud â theithio a naw y cant yn apiau gemau.⁷⁷ Ychwanegodd fod systemau graddio'r App Store a Google Play yn ei gwneud yn anodd i bobl ddod o hyd i apiau Cymraeg, gan fod algorithmau poblogrwydd yn claddu apiau Cymraeg o dan opsiynau Saesneg eraill:

*"So if you've got an English language app and a Welsh language app, even if everybody in Wales loved the Welsh language app, the chances are the English one is going to be more popular. So, they tend to get buried, they're not easy to find, they're not easy to search for."*⁷⁸

72. Dadleuodd Carl Morris dros "[b]rofiadau gweithgareddau mae pobl yn gallu eu gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ag elfen o dechnoleg,"⁷⁹ a dywedodd nad oes llawer o hwyl mewn technoleg yn y Gymraeg.

Darparu apiau a gwasanaethau bancio

73. Awgrymodd dystion arbenigol nad oes rhwystr technegol i ddarparu rhyngwynebau Cymraeg ar apiau bancio. Dywedodd Canolfan Bedwyr fod "[I]lai o esgus erbyn hyn dros beidio darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg," a bod rhyngwynebau meddalwedd yn syml i'w cyfieithu gyda phecynnau priodol.⁸⁰ Ategodd Carl Morris nad yw'n gweld "unrhyw rwystrau technegol", gan nodi bod apiau bancio amlieithog eisoes yn bodoli. Dywedodd fod "diffyg darpariaeth oherwydd diffyg ewyllys ar eu rhan nhw"⁸¹.

⁷⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 261

⁷⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 329

⁷⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 330

⁷⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 140

⁸⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 82

⁸¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 191

74. Nododd Canolfan Bedwyr fod ystyriaethau masnachol yn tueddu i fod yn drech nag anghenion ieithoedd lleiafrifol, ac awgrymodd y gallai fod angen deddfwriaeth:

“Ar ddiwedd y dydd, mae hi’n dod lawr i’r safonau ac a ydy sefydliadau penodol yn dod o dan safonau ieithyddol ai peidio.”⁸²

75. Gofynnodd Dr Cynog Prys:

“Pam ddim bod yn fwy uchelgeisiol? Pam ddim deddfu yn y maes yma? Pam nad ydyn ni’n gofyn i’r cwmnïau yma, sy’n gwneud lot o elw, sy’n gwasanaethu ein cymunedau iaith Gymraeg ni.”⁸³

Y gweithlu: datblygwyr Cymraeg

76. Soniodd Canolfan Bedwyr pa mor bwysig yw gweithlu o ddatblygwyr medrus yng Nghymru ar gyfer technoleg Cymraeg, a bod angen meithrin datblygwyr newydd sydd “wedi’u trwytho yn hyn” ac yn “gallu cynnal y gweithlu yna” ar gyfer y dyfodol.⁸⁴ Nododd fod y Canolfan wedi bod yn ffodus i gael “datblygwyr medrus a thalentog [sy’n] ymrwymedig i’r Gymraeg”. Gallai’r aelodau staff hynny gael “gyrfaoedd llewyrchus iawn” mewn mannau eraill, ac felly mae cael cyflenwad o ddatblygwyr ar gyfer y dyfodol yn hanfodol os yw Cymru am aros gam ar y blaen.⁸⁵

Data agored a thrwyddedau agored

77. Mae trwyddedu agored yn rhoi rhyddid i ddefnyddio, ailddefnyddio ac addasu meddalwedd. Mae WordPress yn un enghraifft sydd wedi cefnogi creu gwefannau Cymraeg. Cymharodd Carl Morris drwyddedau agored â byd lle roedd “Coca-Cola wedi rhoi fformiwla Coca-Cola i bawb i greu eu Coca-Cola ei hunain”. Dadleuodd nad yw modelau perchnogol, lle mae un cwmni’n rheoli

⁸² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 82

⁸³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 343

⁸⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 21

⁸⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 21

meddalwedd, yn ei gwneud hi'n "hawdd iawn i drydydd person neu ni yma yng Nghymru greu addasiadau neu greu ategion"⁸⁶.

78. Pwysleisiodd Canolfan Bedwyr fod data agored a thrwyddedau agored yn hollbwysig ar gyfer yr iaith, er mwyn:

*"... sicrhau bod y data Cymraeg ar gael i fwydo i mewn i sicrhau bod gallu ochr Gymraeg y modelau mawr amlieithog yma cystal â gallu'r modelau yn y Saesneg."*⁸⁷

79. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at rwystrau sy'n gysylltiedig â GDPR o fewn y sector cyhoeddus:

*"Rydyn ni yn aml yn rhedeg i mewn i broblemau o ran diogeledd data a GDPR a hyn i gyd. Mae'r rhain yn broblemau gallem ni fod yn eu goresgyn, ond, yn anffodus, mae gan sefydliadau cyhoeddus 'data protection officers', does ganddyn nhw ddim swyddogion rhannu data."*⁸⁸

Modelau a lefelau cyllido

80. Soniodd Canolfan Bedwyr fod natur flynyddol y trefniadau ariannu yn bryder penodol ar gyfer datblygu technoleg Cymraeg, gan awgrymu y byddai newid i fodel tair blynedd yn galluogi cynllunio hirdymor a chyflawni gwell:

*"Un o'r pethau hefyd sydd bach o fyrddwn i ni ydy natur flynyddol yr ariannu. Dwi'n meddwl y buasem ni'n gallu cynllunio'n fwy hirdymor ac yn fwy doeth petaem ni'n symud i fodel fesul tair blynedd o ariannu hyn yn y dyfodol."*⁸⁹

⁸⁶ Y ddau, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraffau 145-146

⁸⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 11

⁸⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 117

⁸⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 20

81. Daeth pryderon tebyg i'r amlwg yn ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch Llywodraeth Leol Ddigidol.⁹⁰ Fe wnaeth y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng cyllid cylchol, blynyddol a chyflenwi digidol iteradd, ble mae angen gwelliant parhaus a symud o fodelau cyfalaf i fodelau refeniw:

*"Digital projects, as we've talked about already today, need a different funding model—low levels, iteration, minimum viable product; all the buzz words—then continuous improvement and the move away from capital funding to services being purchased as a revenue stream et cetera... Doing that in a cycle of a year is very, very difficult."*⁹¹

82. Ar hyn o bryd mae Canolfan Bedwyr yn derbyn £350,000 yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol, ffigur sy'n seiliedig ar "y byd sut roedd hi nôl ar gychwyn y cynllun (yn 2018)"⁹². Dadleuwyd o blaid cynnydd sylweddol o ystyried pa mor hanfodol yw'r technolegau hyn ar draws sectorau nawr.

Data ynghylch y defnydd a wneir o dechnoleg Cymraeg

83. Galwodd tystion am fwy o ddata a dadansoddiad ar sut mae technoleg Cymraeg yn cael ei defnyddio mewn addysg ac mewn gweithleoedd. Nododd Dr Cynog Prys nad oes digon o ymchwil ynghylch y defnydd gwirioneddol, ac roedd Canolfan Bedwyr yn annog dadansoddi data defnydd i ddeall patrymau, cyd-destunau, a ble mae technoleg yn cael ei defnyddio. Fe wnaethant nodi bod asesiadau cyfredol yn aml yn dibynnu ar ddulliau ôl-weithredol neu ddulliau rhagweld yn hytrach na gweld defnydd byw o'r dechnoleg.⁹³

84. Fe wnaeth Carl Morris dynnu sylw at yr angen i ymchwilio i blwraliaeth cynnwys, yn enwedig i bobl ifanc, a dywedodd nad oes digon o blwraliaeth i siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, er nad oes ystadegau ar gael i gefnogi hyn. Gofynnodd Dr Cynog Prys y cwestiwn sylfaenol:

⁹⁰ Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Llywodraeth Leol Ddigidol

⁹¹ Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Cofnod y Trafodion - 12 Chwefror 2025, paragraff 404

⁹² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Cymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraff 19

⁹³ Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Cymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 5 Mehefin 2025, paragraff 92

“Ydyn ni’n gwybod beth mae pobl eisiau, neu a ydyn ni jest yn dyfalu?”⁹⁴

85. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod technoleg yn faes lle mae gan Lywodraeth Cymru “rôl sylweddol...i arwain y maes” drwy ei pherthnasoedd â chorfforaethau byd-eang. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn gweld rôl i Lywodraeth Cymru wneud “mwy i helpu’r iaith i gael ei defnyddio’r iaith ym mhob agwedd o’n bywydau ni”⁹⁵. Enghraifft ddiweddar yw datblygiad trawsgrifio dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar Microsoft Teams, a ddisgrifir fel yr “enghraifft gyntaf yn y byd” a fydd ar gael i bawb.⁹⁶

86. Er nad yw cwmnïau byd-eang mawr, fel Amazon ac Apple, wedi ceisio datblygu eu gallu yn y Gymraeg eto, rhoddodd Llywodraeth Cymru sicrwydd i’r Pwyllgor ei bod yn sicrhau bod y cwmnïau mawr yn ymwybodol o’r data sydd ar gael. Athroniaeth Llywodraeth Cymru yw “os yw’r Llywodraeth yn talu am rywbeth, rydyn ni’n ei ryddhau e dan drwydded *permissive* fel bod unrhyw un yn gallu ei ddefnyddio fe”⁹⁷.

Ein barn ni

O’r sylfeini i ddefnydd o ddydd i ddydd

87. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer seilwaith technoleg a deallusrwydd artiffisial Cymraeg. Rhaid i’r cam nesaf flaenoriaethu defnydd, pa mor hawdd yw ei darganfod, a phrofiad y defnyddiwr mewn cyd-destunau o ddydd i ddydd (addysg, gweithleoedd, gwasanaethau dinesig, a hamdden). Mae tystiolaeth yn dangos pa mor bwysig yw rhoi pobl wrth wraidd y gwaith o ddylunio a defnyddio technoleg er mwyn galluogi pobl i wneud defnydd rheolaidd o’r Gymraeg mewn amgylcheddau digidol.

88. Yn y cyd-destun hwn, mae’n hanfodol dwysáu’r ymdrechion i ddylanwadu ar gwmnïau technoleg mawr a galluogi i’w cynnyrch gael eu defnyddio drwy

⁹⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 239

⁹⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 66

⁹⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 71

⁹⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 73

gyfrwng y Gymraeg. Er bod hyn yn sicr yn her, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos bod cynnydd yn bosibl drwy feithrin perthnasoedd cryf a dylanwadu ar gwmnïau fel Microsoft. Fodd bynnag, mae ymgysylltu â chwmnïau fel Apple, Amazon a Google wedi bod yn anos. Nid yw parhau i obeithio y bydd y cwmnïau hyn yn y pen draw yn rhoi darpariaeth Gymraeg ar eu dyfeisiau a'u platfformau yn strategaeth hyfyw. Felly, mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy beiddgar a rhagweithiol o ddadlau'r achos dros ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.

Ystwythder a safonau

89. O ystyried cyflymder newidiadau, mae hyblygrwydd polisi yn hanfodol. Dylai strategaethau fod yn iteraidd, yn ymatebol i ddatblygiadau cyflym, ac wedi'u hategu gan safonau sydd wedi'u mireinio ar gyfer darpariaeth ddigidol fodern (gan gynnwys apiau, gwasanaethau wedi'u galluogi gan ddeallusrwydd artiffisial, a rhyngwynebau amlieithog). Lle mae llwyfannau masnachol yn gyndyn o wneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg (er nad oes fawr o rwystrau technegol), dylid ystyried llwybrau statudol (e.e., ymestyn cwrdd safonau'r Gymraeg) i warantu gwasanaethau Cymraeg mewn meysydd pwysig fel bancio.

Ecosystem agored a rhannu data

90. Mae data agored a thrwyddedau agored yn hollbwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n gadarn mewn modelau iaith mawr a deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ymdrechion i gael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig â GDPR i rannu data yn gyfrifol ar draws y sector cyhoeddus. Rydym yn cydnabod y manteision o annog sefydliadau i ymdrin â rhannu data mewn modd cadarnhaol, gan gydnabod yr angen i ddiogelu preifatrwydd data.

Cyllido: Amlflwyddyn, hyblyg, ac addas i'r byd digidol

91. Nid yw trefniant cyllido blynyddol, cylchol yn cyd-fynd yn dda â chyflenwi gwasanaethau digidol iteraidd. Mae'r Pwyllgor o blaid modelau cyllido amlflwyddyn a dulliau refeniw hyblyg sy'n cyd-fynd â chylchoedd bywyd prosiectau digidol. Rydym yn nodi'r achos dros gynyddu'r cyllid craidd ar gyfer sefydliadau allweddol (e.e. Canolfan Bedwyr) o ystyried pa mor greiddiol yw technoleg i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws sectorau.

Y gweithlu a sgiliau

92. Mae llif cynaliadwy o ddarpar-ddatblygwyr medrus, brwdfrydig, sydd wedi'u trwytho mewn technoleg Cymraeg, yn hanfodol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi mesurau wedi'u targedu i feithrin a chadw talent, gan gynnwys partneriaethau ag addysg uwch, prentisiaethau, a chymhellion ar gyfer gyrfaedd mewn technoleg er budd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg. Gallai gweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er enghraifft, helpu i greu cyfleoedd i ddatblygu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cefnogi gweithlu o ddatblygwyr y dyfodol yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn ganolog.

Pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys, a phlwrailaeth

93. Er mwyn cynyddu defnydd dyddiol, rhaid i gynnwys Cymraeg fod yn hawdd ei ddarganfod a rhaid iddo ennyn brwdfrydedd y defnyddiwr. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r heriau o ran algorithmau cronfeydd apiau ac yn cefnogi ymyriadau sy'n gwella amlygrwydd apiau Cymraeg, yn hyrwyddo profiadau digidol hwyliog a diddorol, ac yn annog plwrailaeth, yn enwedig i'n pobl ifanc.

Casgliad 4. Mae'r gwaith cynnar a wnaed i baratoi'r sylfeini ar gyfer technoleg Cymraeg yn golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y gorau o'r cyfleoedd mewn datblygiadau technolegol, yn enwedig deallusrwydd artiffisial. Mae'n allweddol ein bod yn trosi'r sefyllfa strategol hon i gynyddu'r defnydd o dechnoleg Cymraeg o ddydd i ddydd. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu:

- fframwaith polisi ystwyth ac ymatebol;
- safonau'r Gymraeg wedi'u mireinio i'w gosod ar gyrff cyhoeddus i adlewyrchu'r cyd-destun technolegol newydd (lle bo angen, drwy ddeddfwriaeth);
- model cyllido amlflwyddyn sy'n cyd-fynd â rhaglenni cyflawni digidol;
- llwybrau data agored cryfach;
- buddsoddiad yn y gweithlu datblygwyr Cymraeg;
- ymchwil estynedig a mesur y defnydd a wneir o dechnoleg Cymraeg; a
- camau gweithredu wedi'u targedu i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Cymraeg, a phlwrailaeth cynnwys Cymraeg.

94. Bydd y camau hyn yn sicrhau y gall pobl fyw a gweithio drwy'r Gymraeg mewn gofodau digidol modern, bod y Gymraeg wedi'i hintegreiddio yn y chwyldro deallusrwydd artifffisial, a bod cymunedau, ar draws pob lefel dwysedd iaith, yn elwa o dechnoleg sy'n rhoi defnyddwyr wrth ei gwraidd ac sy'n galluogi defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd.

Casgliad 5. Mae apiau a chynnwys Gymraeg yn cael anhawster yn sgil algorithmau sy'n rhoi amlygrwydd i'r apiau mwyaf poblogaidd, sydd bob amser yn Saesneg. Mae chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo apiau a chynnwys Gymraeg a dwyieithog, yn enwedig i bobl ifanc, yn hanfodol. Er y gallai llawer o hyn fod y tu hwnt i gwmpas yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, gall gefnogi sefydliadau partner i weithio gyda datblygwyr a chrewyr cynnwys i wella pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys Gymraeg, a phlwraliaeth cynnwys Gymraeg.

Argymhelliad 5. Cryfhau mentrau data agored a chael gwared ar rwystrau i rannu data: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cryfhau mentrau data agored y sector cyhoeddus, a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â GDPR i rannu data yn gyfrifol er mwyn cefnogi datblygiad technoleg Gymraeg.

Argymhelliad 6. Cyflwyno modelau cyllido amlflwyddyn a chynyddu buddsoddiad craidd: Dylai Llywodraeth Cymru symud o gylchoedd cyllido blynyddol i fodelau amlflwyddyn i gynorthwyo gyda datblygu technoleg Gymraeg. Byddai modelau cyllido tymor hwy yn cefnogi sefydliadau allweddol fel Canolfan Bedwyr i gynllunio prosiectau sy'n rhychwantu sawl blwyddyn ariannol.

6. Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

95. Un o'r heriau mwyaf yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, problem sy'n cael ei phrofi ar draws gwledydd a rhanbarthau lle mae ieithoedd lleiafrifol yn cael eu haddysgu fel rhan o addysg plant. Dywedodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg fod "angen gwyrddroi'r sifft iaith", ond bod rhaid gwneud hynny mewn ffordd sy'n:

*"sensitif i rai o'r problemau sydd wedi codi mewn gwledydd eraill lle rydych chi'n gallu ehangu'r system addysg ond dydych chi ddim efallai yn croesi'r bont yn llwyddiannus i gael y defnydd yn y gymuned."*⁹⁸

96. Yn ystod yr ymchwiliad, nodwyd dau faes allweddol a allai helpu i newid sifft iaith yn y gymuned: y gweithle a chwaraeon ar lawr gwlad.

Cymraeg yn y gweithle: maes strategol i'w ddatblygu

97. Pwysleisiodd nifer o dystion yr angen i fuddsoddi yn y Gymraeg yn y gweithle, gan nodi, i lawer sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, mai'r gweithle yw eu hunig gyswllt parhaus â'r iaith. Dywedodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor fod hyn yn wir:

*"Mae hwnna'n rhywbeth sydd o ddiddordeb i ni: pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol a'r cyswllt gyda'r gweithle wedyn—beth yw'r cyfleoedd?"*⁹⁹

98. Disgrifiodd Dr Rhian Hodges y gweithle fel rhywle sy'n darparu "cyfle euraidd" i ddefnyddio'r Gymraeg.¹⁰⁰ Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y "gweithle yn faes strategol allweddol er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn benodol i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw".¹⁰¹ Dywedodd Dr. Elin Royles wrth y Pwyllgor fod "cymaint yn fwy" y gellid ei wneud i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

⁹⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 41

⁹⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 44

¹⁰⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 148

¹⁰¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 85

yn y gweithle, a bod “polisiâu busnesau yn fwy pwerus na pholisiâu Llywodraethau”¹⁰².

99. Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghyd â sefydliadau partner yn gweithio i’w gwneud hi’n haws i bobl ddysgu a defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle gyda chysiau a chyfleoedd penodol wedi’u targedu at gyflogwyr a gweithwyr. Yn y cyd-destun hwn, gwnaeth y Ddeddf ddarpariaeth sy’n sefydlu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn seiliedig ar CEFR, a bydd yn rhoi dealltwriaeth gyffredin i ddysgwyr, rhieni, athrawon a chyflogwyr o’r gallu ieithyddol a ddisgwylir ym mhob cam o’r daith wrth ddysgu’r iaith.¹⁰³

100. Dylai hyn helpu cyflogwyr i benderfynu pa sgiliau Cymraeg sy’n ofynnol ar gyfer swydd benodol, i roi eglurder ynghylch sgiliau’r gweithlu presennol, yn ogystal â rhoi cyfle i hyrwyddo defnyddio a dysgu’r Gymraeg yn y gweithle yn ehangach.

Hamdden a chwaraeon llawr gwlad: dod â’r Gymraeg yn fyw

101. Cafodd chwaraeon, yn enwedig chwaraeon ar lawr gwlad, eu crybwyll yn rheolaidd fel maes allweddol ar gyfer datblygu defnydd anffurfiol o’r Gymraeg. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at waith ymchwil diweddar gyda phlant a phobl ifanc, gan dynnu sylw at y ffaith bod “gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn feysydd strategol bwysig”¹⁰⁴. Dywedodd dros hanner y bobl ifanc a ymatebodd eu bod yn mynychu’n rheolaidd weithgareddau hamdden/chwaraeon—sy’n sylweddol uwch nag unrhyw weithgaredd arall. Nodwyd bod “plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio’r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon, yn enwedig gyda hyfforddwyr acc arweinwyr” a’u cyfoedion.¹⁰⁵

102. Nododd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg fod chwaraeon cymunedol yn arbennig o ddiddorol mewn perthynas â’r Gymraeg gan y gall fod yn “ffordd arbennig” o ddod â’r Gymraeg yn fyw.¹⁰⁶ Nododd fod chwaraeon cymunedol yn

¹⁰² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 111

¹⁰³ Senedd Cymru: Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

¹⁰⁴ Comisiynydd y Gymraeg: gohebiaeth – 9 Mehefin 2025

¹⁰⁵ Comisiynydd y Gymraeg: gohebiaeth – 9 Mehefin 2025

¹⁰⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 128

tueddu i ddenu pobl iau, a'i fod yn weithgaredd cymdeithasol sy'n tueddu i fod ar agor i bobl o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol.¹⁰⁷

103. Amlygwyd enghreifftiau ymarferol o wneud yr iaith yn berthnasol drwy chwaraeon. Cynhaliodd Undeb Rygbi Cymru gwrs yn Gymraeg ar y menopos, gan nodi bod “40 o ferched yna yng Nghlwb Rygbi y Bala”, a phwysleisiodd: “os ydyn ni eisiau gwneud yr iaith yn berthnasol, mae’n rhaid i ni, fel corff rheoli, ac mae’n rhaid i’r Llywodraeth, fod yn berthnasol i fywydau dyddiol pobl”¹⁰⁸. Roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cydnabod bod angen recriwtio mwy o hyfforddwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, “ar bob lefel i wneud i blant a phobl ifanc deimlo’n gyfforddus” a darparu cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith.¹⁰⁹

104. Nododd Dr Rhian Hodges fod chwaraeon a cherddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol i ddarparu gweithgareddau hwyliog i bobl ifanc, a dywedodd fod angen inni ddeall beth mae pobl ifanc eisiau ei wneud, a darparu’r cyfleoedd hynny iddynt yn lleol.¹¹⁰

105. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gweithleoedd yn cynnig “cyfleoedd naturiol” i ddefnyddio’r Gymraeg, gan dynnu sylw at y cynnydd yn nifer staff Llywodraeth Cymru sy’n dysgu ac yn defnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (o 2027, yr “Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol”) yn allweddol i gyflwyno a hwyluso cyrsiau i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle ledled Cymru. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... Rŷn ni’n dibynnu ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd i wneud gwaith pwysig yn y maes yma. ‘Cymraeg Gwaith’, y rhaglen maen nhw’n ei rhedeg, mae mwy na 30,000 o bobl nawr wedi bod yn rhan o’r cynllun yna, ac maen nhw newydd greu rhaglen newydd i bobl sy’n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.”¹¹¹

¹⁰⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 129

¹⁰⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 167

¹⁰⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 188

¹¹⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraffau 151-152

¹¹¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 138

106. Wrth ystyried y dyfodol, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at CEFR a gyflwynwyd gan Ddeddf 2025 a allai “newid sut mae pobl yn meddwl am y Gymraeg yn y gweithle”, yn ogystal ag yn yr ysgol a thu hwnt.¹¹²

107. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn awyddus i bwysleisio rôl chwaraeon fel cyd-destun naturiol i bobl ifanc yn benodol gymdeithasu a defnyddio’r iaith. Er y gwaith da a wnaed gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Chwaraeon Cymru a’r cyrff llywodraethu, dywedodd fod “mwy y gallem ni ei wneud”¹¹³.

Ein barn ni

Pontio rhwng yr ysgol a’r gymuned

108. Mae’r Pwyllgor yn ystyried bod pontio rhwng yr ysgol a’r gymuned yn ddolen wan sy’n hollbwysig yn nhaith iaith unigolion. Mae tystiolaeth yn awgrymu na allwn ddibynnu ar addysg ffurfiol ar ben ei hun i arwain at ddefnydd cymunedol cynaliadwy o’r iaith; mae angen cyfleoedd wedi’u targedu, yn y byd go iawn i groesi’r bont i fywyd-bob-dydd. Mae gweithleoedd a chwaraeon ar lawr gwlad yn amgylcheddau gwyh i normaleiddio’r iaith a’i defnyddio mewn lleoliad anffurfiol.

Defnyddio’r iaith yn y gweithle

109. Mae gweithleoedd yn darparu cyd-destunau strwythuredig, bob-dydd lle y gall pobl ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Dylid annog cyflogwyr, ym mhob sector, i gynnig llwybrau cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd mentora i’w staff, gyda chefnogaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Gallai rhannu arfer da rhwng sectorau a chryfhau cymhellion i fusnesau preifat fabwysiadu polisïau Cymraeg hefyd ymestyn hyn y tu hwnt i leoliadau statudol.

Chwaraeon fel hwylusydd cymdeithasol

110. Mae chwaraeon ar lawr gwlad yn hwylusydd cymdeithasol; yn aml yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned, ac yn aml yn cynnwys llawer o bobl ifanc, mae’n darparu lleoliad naturiol i ryngweithio â hyfforddwyr/arweinwyr a chyfoedion. Mae recriwtio a hyfforddi hyfforddwyr drwy’r Gymraeg, a chynnwys y Gymraeg yng ngweithgareddau clybiau yn gamau ymarferol uniongyrchol a fydd

¹¹² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 139

¹¹³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 143

yn cynyddu defnydd a hyder. Gall partneriaethau â chyrff rheoli helpu i ehangu mentrau perthnasol a sicrhau cysondeb ar draws rhanbarthau.

111. Mae hefyd yn bwysig cydnabod a chanmol gwaith yr Urdd mewn perthynas â'i ddarpariaeth chwaraeon a gweithgareddau chwarae. Mae'r cyfleoedd a ddarperir ganddo'n ddiglyffelyb, gan alluogi plant a phobl ifanc i glywed a defnyddio'r iaith mewn amgylchedd hwyliog, naturiol y tu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth. Bydd parhau i fuddsoddi yn yr Urdd, i ddatblygu ei ddarpariaeth ymhellach ac i barhau â'i gynllun prentisiaeth llwyddiannus a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn hanfodol er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr.

Dylunio gweithgareddau perthnasol a hwyliog

112. Mae'r dystiolaeth yn amlygu pa mor bwysig yw gwneud y Gymraeg yn berthnasol i fywyd-bob-dydd pobl ac, yn bwysicach fyth, ei gwneud yn hwyl, yn enwedig i bobl ifanc. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai polisïau a rhaglenni flaenoriaethu gweithgareddau lleol (chwaraeon, cerddoriaeth, hamdden) sy'n adlewyrchu'r hyn y mae pobl ifanc eisiau ei wneud, gan sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol, yn gymdeithasol, ac yn hwyliog.

113. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn dibynnu ar fynd ati'n fwriadol i greu cyfleoedd bob-dydd, yn enwedig yn y gweithle a thrwy chwaraeon ar lawr gwlad. Gall y lleoliadau hyn ddod â'r iaith yn fyw, rhoi cyfleoedd i ryngweithio gan feithrin hyder gyda chydweithwyr, a gwneud y Gymraeg yn berthnasol i fywyd-bob-dydd pobl. Mae enghreifftiau gwych o sefydliadau, fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, yn ymgorffori ethos Gymraeg a Chymreig ledled y sefydliad, sy'n rhaeadru i glybiau ar lawr gwlad. Mae angen i'r gwaith hwn ddigwydd ar draws cyrff rheoli a chlybiau yng Nghymru.

114. Hoffai'r Pwyllgor weld llawer mwy o gynllunio bwriadol i alluogi defnydd anffurfiol o'r iaith yn y gweithle ac mewn clybiau chwaraeon ledled y wlad. Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad wrth gydweithio â chyrff rheoli chwaraeon, Chwaraeon Cymru a sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach. Rydym yn cydnabod y gwaith a wneir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac eraill i gynyddu hyder, sgiliau a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Casgliad 6. Mae angen i bolisi cyhoeddus ganolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gefnogi cyrff y sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Mae Deddf 2025 yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n gadarnhaol â sefydliadau

a busnesau wrth i'r CEFR gael ei gyflwyno. Dylid creu pecyn cymorth, sy'n cynnwys rhoi mynediad i fusnesau a gweithwyr at adnoddau a hyfforddiant drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ynghyd â chyfleoedd i rannu arferion da.

Casgliad 7. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno gweld llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gefnogi clybiau llawr gwlad i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg a chreu ethos Gymraeg gryfach. Gan weithio gyda chyrff rheoli, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth lle bo angen i rannu arferion da. Dylai'r cyrff rheoli hefyd ganolbwyntio ar:

- Recriwtio a hyfforddi mwy o hyfforddwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu cymorth i hyfforddwyr sydd â diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg.
- Ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau clybiau a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

Argymhelliad 7. Cefnogi mentrau cymunedol: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu, yn debyg i'w chynllun Perthyn, i alluogi sefydliadau cymunedol a chlybiau llawr gwlad i ddatblygu ffyrdd arloesol o gyflwyno cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai prif ffocws unrhyw gyllid o'r fath fod ar gefnogi clybiau llawr gwlad mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg.

7. Ymchwil a strategaethau wedi'u targedu

Ymchwil a data

115. Clywsom dystiolaeth bod prinder dybryd o ddata ynghylch y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, a lle y mae gwaith casglu data wedi'i wneud, mae'n llawer rhy anfynych. Dywedodd iaith wrth y Pwyllgor fod ymchwil a data ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn "eithaf bratiog"¹¹⁴, ac nad oes dull systematig o ymchwilio a chasglu data ynghylch y Gymraeg yng Nghymru. Mae hyn yn "heriol o ran cynllunio prosiectau neu ymyriadau".¹¹⁵

116. Amlygodd Dr. Elin Royles yr her sy'n wynebu academyddion wrth geisio sicrhau cyllid i ymgymryd ag ymchwil ynghylch y defnydd o'r Gymraeg. Cyfeiriodd at gais diweddar i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, gydag adborth yn dweud bod y prosiectau a oedd yn ceisio cymharu'r Gymraeg a'r Aeleg, a gosod hyn mewn cyd-destunau Ewropeaidd, yn rhy lleol neu ranbarthol. Nododd:

*"Mi wnaethom ni gynnig project ar fudiadau yn gweithio efo pobl ifanc mewn ieithoedd Celtaidd adeg Covid, a'r adborth a gawson ni oedd bod y mater ddim yn ymddangos yn 'urgent'."*¹¹⁶

117. Nododd Dr. Royles hefyd nad yw'r data sydd ar gael ynghylch defnydd iaith (a gynhaliwyd ddiwethaf gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20) yn "caniatáu inni fynd o dan lefel awdurdodau lleol", sy'n cyfyngu ar ddyfnder y dadansoddiad sy'n bosibl. Mewn cymhariaeth, meddai, mae gan Wlad y Basg a Chatalwnia "gymaint mwy na sydd gennym ni"¹¹⁷.

118. Wrth fyfyrto ar y gwaith ymchwil ar ddefnyddio technoleg, apiau a chyfryngau cymdeithasol Cymraeg, dywedodd Dr. Cynog Prys, er bod rhywfaint o dystiolaeth yn y maes hwn, mai "beth dydyn ni ddim yn gwybod hanner digon amdano ydy

¹¹⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 22

¹¹⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 22

¹¹⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 12

¹¹⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 16

sut mae pobl ym maes addysg yn defnyddio'r dechnoleg yma, sut mae pobl yn y byd gwaith yn defnyddio'r dechnoleg yma"¹¹⁸.

119. Roedd galwadau hefyd am fwy o dystiolaeth i fesur effaith digwyddiadau a gwyliau ar ddefnydd iaith. Bu rhai asesiadau effaith economaidd bob hyn a hyn sy'n dangos gwerth cymdeithasol ac economaidd pendant gwyliau Cymraeg i'r ardal leol, ond llai felly ar yr effaith hirdymor ehangach ar ddefnydd iaith. Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod anhawster wrth ynysu achos ac effaith ar gyfer un digwyddiad ar "ymdeimlad rhywun o berthyn a'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud blynyddoedd lawr y lein"¹¹⁹. Er bod gwerthusiadau lleol gan y mentrau iaith yn awgrymu bod digwyddiadau wedi "newid ymddygiad" ac wedi "cychwyn teithiau" i lawer o bobl, nododd y tystion fod cyfle i "wneud mwy o waith gwerthuso" i gofnodi'r effaith yn gadarn.¹²⁰

120. Dywedodd Menter Iaith Merthyr Tudful wrthym, er bod ei hasesiad ei hun o effaith Canolfan a Theatr Soar wedi cyfrannu £1.3 miliwn i'r economi leol mewn un flwyddyn, ei bod yn teimlo bod:

*"gwir angen, yn yr ardaloedd dwysedd is yma, mwy o ymchwil. Mae angen inni rili gweithio ar yr effaith yma i rili deall ble mae angen inni fuddsoddi."*¹²¹

Ymchwil: Ymestyn 'Prosiect BRO' a mesur effaith

121. Mae Prosiect BRO yn arolwg sosioieithyddol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin (ardaloedd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg). Nododd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei fod yn agored i ymestyn y fethodoleg i ardaloedd dwysedd canolig a dwysedd is:

"Mae Prosiect Bro yn canolbwyntio ar y cam yma ar yr ardaloedd hynny lle mae dwysedd y siaradwyr yn uwch, ond mi fyddai'n fuddiol i ddefnyddio'r un methodolegau yna ar gyfer ardaloedd lle mae

¹¹⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 238

¹¹⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 25

¹²⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 271

¹²¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 280

canran y siaradwyr yn ganolig neu'n is, a byddai hynny wedyn yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr.”¹²²

122. Soniodd Amgueddfa Cymru hefyd am “fwlch data” mewn ardaloedd dwysedd is a gwerth ymestyn y dadansoddiad y tu hwnt i gymunedau dwysedd uwch.¹²³ Gyda data gwell ynghylch defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd is, byddai'n helpu gwaith cynllunio'r Amgueddfa. Nododd y Comisiwn fod ansicrwydd ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg mewn mannau fel maestrefi Caerdydd, Pontypridd neu Gaerffili, y tu hwnt i ddata eang y cyfrifiad, a phwysleisiodd yr angen i fesur defnydd yn briodol wrth i fywydau ddod yn fwy dwyieithog. Gall cyflwyno fframwaith y CEFR drwy'r Ddeddf gynorthwyo gyda mesur cynnydd yn y dyfodol.¹²⁴

123. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet cyn yr haf fod Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad ychwanegol i Brosiect BRO yn ddiweddar er mwyn iddo ganolbwyntio ar Sir Gaerfyrddin a chymoedd ôl-ddiwydiannol de Cymru oherwydd pryderon nad oedd y Gymraeg bellach yn iaith gymunedol yn yr ardaloedd hynny.¹²⁵

Ymchwil gymharol a chydweithio rhyngwladol

124. Cyfeirir yn aml at brofiadau Gwlad y Basg a Chatalwnia at ddibenion cymharu. Mae'r Comisiwn yn bwriadu defnyddio ymchwil academiaidd rhyngwladol yn ail gam ei waith sy'n canolbwyntio ar ardaloedd dwysedd is, ond nododd y Cadeirydd fod ymchwil gymharol yn “rhywbeth sydd ddim wedi digwydd yng Nghymru, efallai, gymaint ag y dylai fod wedi digwydd”¹²⁶. Mae gwersi i'w dysgu o brofiadau gwledydd a rhanbarthau eraill, yn enwedig lle bu llwyddiant wrth gynyddu nifer siaradwyr iaith leiafrifol, fel yng Ngwlad y Basg, ond lle mae'r defnydd wedi “aros yn gyson”¹²⁷. Awgrymodd y Comisiwn ei bod hi'n bosibl bod defnydd personol o ieithoedd lleiafrifol wedi newid dros amser, a bod

¹²² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 112

¹²³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 12 Mehefin 2025, paragraff 30

¹²⁴ Senedd Cymru: Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

¹²⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 16 Gorffennaf 2025, paragraff 125

¹²⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 63

¹²⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 88

cynnal defnydd yn gofyn am hyd yn oed fwy o bobl sy'n gallu defnyddio'r iaith, gan fod "ein defnydd personol yni yn mynd yn llai"¹²⁸.

125. Dangosodd Canolfan Bedwyr ei ap ARFer i'r Pwyllgor, a ddatblygwyd i gefnogi defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan ddefnyddio methodoleg wedi'i haddasu o ymyrraeth yng Ngwlad y Basg, gan ddangos sut y gellir dysgu gwersi o bartneriaethau rhyngwladol. Dywedodd Carl Morris wrth y Pwyllgor fod angen "edrych ar lwyddiannau mewn ieithoedd eraill", a gweld a yw'n bosibl efelychu prosiectau yma yng Nghymru.¹²⁹ Cyfeiriodd at enghraifft yng Ngwlad y Basg lle roedd gwirfoddolwyr ac aelodau o Grŵp Defnyddwyr Wikimedia Gwlad y Basg wedi datblygu Wicipedia ar gyfer pobl ifanc (Txikipedia) ac wedi'i deilwra i anghenion y cwricwlwm.¹³⁰

Strategaethau wedi'u targedu

126. Dywedodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor, er bod yr iaith yn bwysig ym mhob rhan o Gymru, fod angen gwahanol strategaethau neu bwyslais gwahanol ar wahanol rannau o Gymru er mwyn "delifro beth rydyn ni i gyd eisiau, sef Cymru ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn cael ei harddel yn gymunedol"¹³¹. Nododd y Comisiwn ei fod o blaid cael "fframwaith cenedlaethol" ar gyfer defnydd cymdeithasol o'r iaith sy'n caniatáu "amrywiaeth polisi oddi mewn i'r fframwaith"¹³².

127. Roedd hefyd eisiau gweld polisiâu blaengar yng Nghymru, gan nodi "lle mae yna gynllunio ieithyddol bwriadus a lle mae yna bolisiâu blaengar, rydyn ni'n gweld rhywfaint o beth allwn ni ei alw'n '*community turn*', hynny ydy, bod yna shifft yn dod"¹³³. Gan gyfeirio at Wlad y Basg a Chatalwnia, dywedodd fod "yr ardaloedd hynny lle mae yna bolisiâu blaengar, yna rydyn ni'n gallu gweld cynnydd yn bendant yn nifer a chanran y bobl sydd yn medru'r ieithoedd"¹³⁴.

¹²⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 90

¹²⁹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 201

¹³⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mehefin 2025, paragraff 201

¹³¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 39

¹³² Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 36

¹³³ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 12

¹³⁴ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraffau 87-89

Rôl y Cymry ar wasgar

128. Soniodd y Comisiwn am y ffaith, er bod polisi'n cael ei lunio i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, fod ein cymuned ieithyddol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru.¹³⁵ Dywedodd y gallai fod rhwng 100,000 a 150,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw y tu allan i Gymru, gyda thua 15,000 o'r rheiny yn siaradwyr Cymraeg ail genhedlaeth ond heb erioed fyw yng Nghymru. Felly gofynnodd y Comisiwn:

"At a time when we know that technology means that we can actually look beyond the purely physical in terms of geography, is there anything more that these people could be doing to contribute to the language community?"¹³⁶

129. Pwysleisiodd y Comisiwn nad oedd yn awgrymu y dylid neilltuo symiau mawr o wariant cyhoeddus i'r maes hwn, ond y gellid gwneud newidiadau bach a allai fod yn arwyddocaol.¹³⁷

Ein barn ni

Ymchwil

130. Mae'n amlwg i ni bod y dystiolaeth ar batrymau defnydd iaith, sut mae pobl yn rhyngweithio â'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau, a gwerthusiadau ynghylch effaith ymyriadau yn anghyson ar y gorau. Mae ymchwil a data ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn ymddangos yn ysbeidiol, ac mae data ynghylch sut y mae pobl yn defnyddio technoleg, apiau a chyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn gyfyngedig.

131. Clywsom am yr heriau y mae'r byd academiaidd yn eu hwynebu o ran cael cyllid i gynnal ymchwil ar y Gymraeg gan nad yw'n cael ei hystyried yn fater brys.¹³⁸

132. Yn sylfaenol, mae angen dull llawer mwy systematig a chydlynol o ymchwilio mewn perthynas â'r Gymraeg. Gwelwn bocedi o waith gwyb yn cael ei wneud

¹³⁵ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 143

¹³⁶ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 144

¹³⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 5 Mawrth 2025, paragraff 146

¹³⁸ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Gorffennaf 2025, paragraff 12

gan Lywodraeth Cymru, y byd academiaidd a phartneriaid ymchwil eraill, ond ymddengys fod diffyg cyfeiriad neu strwythur clir. Gallai arweinyddiaeth a chefnogaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru o ran yr anghenion tystiolaeth gynorthwyo'r byd academiaidd i gael mynediad at gyllid a datblygu meini prawf ymchwil a fydd yn arwain at well polisi cyhoeddus a phenderfyniadau.

133. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn 2022*¹³⁹ sy'n darparu canllawiau ar gyfer casglu tystiolaeth a data. Cynlluniwyd y fframwaith i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a chan sefydliadau eraill sydd â rôl wrth gasglu tystiolaeth a data mewn perthynas â chyflawni Cymraeg 2050. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni beth yw cwmpas y fframwaith hwn y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, a byddem yn cwestiynu ei effeithiolrwydd a'i effaith ar allbynnau ymchwil gan sefydliadau eraill.

134. Mae dysgu o wledydd eraill a'u profiadau nhw hefyd yn bwysig, yn enwedig o ran y defnydd o dechnoleg gan bobl ifanc. Roedd yn ddiddorol clywed am apiau sy'n cael eu datblygu mewn llefydd fel Glasgow i alluogi pobl i glustnodi llefydd lle y siaredir Gaeleg o fewn y ddinas, i gysylltu â siaradwyr Gaeleg eraill.¹⁴⁰ Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, clywsom sut y gall y cysylltiadau ag Iwerddon gryfhau polisi iaith yng Nghymru ac y gall rhannu gwersi a ddysgir olygu bod modd osgoi camgymeriadau.¹⁴¹

135. Mae'r Pwyllgor yn gweld angen clir i ehangu "Prosiect BRO" i ardaloedd dwysedd canolig a dwysedd is, ac i fuddsoddi mewn gwerthusiad cadarn o ddigwyddiadau a gwyliau i gofnodi canlyniadau ieithyddol ochr yn ochr â'r effaith economaidd.

136. Mae'r Pwyllgor hefyd o blaid datblygu metrigau defnydd byw ar gyfer technoleg Cymraeg, astudiaethau dyfnach i weithleoedd/addysg, a mwy o ymchwil gymharol â gwledydd a rhanbarthau eraill sydd â heriau tebyg i lywio'r gwaith o ddylunio polisïau.

¹³⁹ Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso - Tachwedd 2022

¹⁴⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 10 Gorffennaf 2025, paragraff 21

¹⁴¹ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd, tudalennau 28-30

Denu'r Cymry ar wasgar drwy dechnoleg

137. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y potensial sydd heb ei gyffwrdd a gynigir gan y Cymry ar wasgar, yr amcangyfrifir eu bod yn cwmpasu hyd at 150,000 o bobl. Er nad yw buddsoddiad ar raddfa fawr yn angenrheidiol nac yn gymesur, mae'r Pwyllgor yn credu y gallai mesurau bach, strategol, fel llwyfannau ymgysylltu digidol, digwyddiadau rhithwir, a chyfleoedd i gyfranogi o bell, gryfhau'r gymuned Gymraeg fyd-eang ac atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol y tu hwnt i Gymru.

Casgliad 8. Mae'n amlwg bod bwriad da i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gryfach mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru, drwy Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso Gymraeg 2050, wedi ceisio darparu rhywfaint o arweiniad yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae angen dull llawer mwy systematig a chydlynol o ymdrin ag anghenion ymchwil i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflawni polisiau yng nghyd-destun y Gymraeg. Dylai'r arweinyddiaeth honno ddod gan Lywodraeth Cymru.

Casgliad 9. Mae angen penodol i fesur effeithiolrwydd ymyriadau yn y gweithle ac mewn chwaraeon o ran y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys astudiaethau hydredol i olrhain newid ymddygiad dros amser. Dylai hyn gyd-fynd â chyflwyno'r CEFR a newidiadau ehangach a ddaw yn sgil y Ddeddf.

Casgliad 10. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rôl y Cymry ar wasgar yn ei strategaeth iaith yn rheolaidd a sicrhau bod polisiau'n adlewyrchu'r realiti bod ein cymuned ieithyddol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru. Dylai'r gwaith ymgysylltu fod yn gymesur a dylid canolbwyntio ar gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg.

Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
5 Mawrth 2025	Dr Simon Brooks, Cadeirydd, Comisiwn Cymunedau Cymraeg Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Is-gadeirydd, Comisiwn Cymunedau Cymraeg Dr Gwennan Higham, Aelod o'r Comisiwn, Comisiwn Cymunedau Cymraeg
5 Mehefin 2025	Dr Neil Mac Parthalain, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Aberystwyth Dr Daniel Cunliffe, Athro Cyswllt Prifysgol De Cymru Dr Cynog Prys, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Bangor Dr Llion Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor Dr Lowri Hughes, Pennaeth Polisi a Datblygu, Canolfan Bedwyr Prifysgol Bangor Gruffydd Prys, Pennaeth Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor Carl Morris, Technolegydd Cymraeg
12 Mehefin 2025	Hywel Iorwerth, Uwch Swyddog Polisi, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg Einir Sion, Galluogwr y Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Amgueddfa Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Diwylliant Cymdeithas Bêl-droed Cymru Gwyn Derfel, Rheolwr y Gymraeg, Undeb Rygbi Cymru Lisbeth McLean, Prif Swyddog, Menter Iaith Merthyr Tudful Lowri Catrin Jones, Prif Swyddog, Menter Iaith Sir Caerffili Maiwenn Berry, Prif Swyddog, Menter Iaith Fflint a Wreccsam Osian Rowlands, Prif Swyddog, Menter Iaith Rhondda Cynon Taf Catherine Stephens, Pennaeth Dysgu Cymraeg Morgannwg, Prifysgol De Cymru Betsan Moses, Prif Weithredwr Yr Eisteddfod Genedlaethol Llio Maddocks, Cyfarwyddwr y Celfyddydau Urdd Gobaith Cymru
10 Gorffennaf 2025	Dr Osian Elias, Cyfarwyddwr. Iaith Dr Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Iaith Dr Elin Royles, Darllenydd, Prifysgol Aberystwyth Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor Yr Athro Bernadette O'Rourke, Prifysgol Glasgow Yr Athro Nikolay Slavkov, Prifysgol Ottawa Dr Ruth Kircher, Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Materion Lleiafrifol Dr Robert James Talbot, Swyddfa Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada Yr Athro Michael Hornsby, Prifysgol Adam Mickiewicz

Dyddiad	Enw a Sefydliad
16 Gorffennaf 2025	Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru Elin Burns, Cyfarwyddwr, Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
CFA 01	Bethan Collins, Myfyriwr PhD
CFA 02	Unigolyn 01
CFA 03	Unigolyn 02
CFA 04	Unigolyn 03
CFA 05	Dr Gregory Davies (Prifysgol Lerpwl) a Dr Robert Jones (Prifysgol Caerdydd)
CFA 06	Coleg Cymraeg Cenedlaethol
CFA 07	Ffederasiwn Busnesau Bach
CFA 08	Colegau Cymru
CFA 09	Cyngor Sir Fynwy
CFA 10	Dr Thora Tenbrink
CFA 11	Mudiad Meithrin
CFA 12	Unigolyn 04
CFA 13	Unigolyn 05
CFA 14	Unigolyn 06
CFA 15	Mentrau Iaith Cymru
CFA 16	Dysgu Cymraeg Morgannwg
CFA 17	Unigolyn 07
CFA 18	Comisiynydd y Gymraeg
CFA 19	UCAC
CFA 20	Unigolyn 08
CFA 21	Dyfodol i'r Iaith

Cyfeirnod	Sefydliad
CFA 22	Caerdydd Ddwylieithog – Cyngor Caerdydd
CFA 23	Iaith
CFA 24	Cwmpas
CFA 25	Estyn
CFA 26	Urdd Gobaith Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Gohebiaeth: Comisiwn Cymunedau Cymraeg	16 Ebrill 2025
Tystiolaeth ysgrifenedig: Cyngor Celfyddydau Cymru	6 Mehefin 2025
Gohebiaeth: Comisiynydd y Gymraeg	9 Mehefin 2025
Gohebiaeth: Urdd Gobaith Cymru	12 Mehefin 2025
Gohebiaeth: Urdd Gobaith Cymru	17 Mehefin 2025
Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru	Gorffennaf 2025
Tystiolaeth ysgrifenedig: Chwaraeon Cymru	4 Gorffennaf 2025
Gohebiaeth: Menter Caerffili	9 Gorffennaf 2025
Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru	15 Awst 2025
Tystiolaeth ysgrifenedig: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Aberystwyth	25 Awst 2025
Erthygl ymchwil: Robert Jones a Gregory Davies	8 Hydref 2025